Arsyllfa Wledig Cymru
Wales Rural Observatory

# Arolwg Busnesau yng Nghefn Gwlad

Mai 2008

Adroddiad Ymchwil 16


Prifysgol Aberystwyth University

Cardiff University / Prifysgol Caerdydd

Cronfa Amaethyddol Ewrop ar gyfer Datblygu Gwledig: Ewrop yn Buddsoddi mewn Ardaloedd Gwledig
The European Agricultural Fund for Rural Development: Europe Investing in Rural Areas

Llywodraeth Cynulliad Cymru
Welsh Assembly Government

# Cynnwys


**CYNNWYS** 1

**ADRAN 1 RHAGYMADRODD** 3

1.1 Rhagymadrodd 3

**ADRAN 2 METHODOLEG** 4

2.1 Sail resymegol yr arolwg 4

2.2 Amcanion yr Ymchwil 4

2.3 Dyluniad yr Holiadur 4

2.4 Peilotio'r holiadur 5

2.5 Llythyr cyflwyno 5

2.6 Cynnwys yr Holiadur 5

2.7 Creu'r Sampl ar gyfer yr Arolwg 6

2.8 Gweinyddu'r Arolwg 7

2.9 Ymatebion yr Arolwg 8

2.10 Dadansoddi'r Data 8

**ADRAN 3 CANLYNIADAU A DADANSODDIAD** 9

3.1 Darlun o'r Busnes a'r Perchennog 9

3.2 Ynglyn â'r Gweithwyr 12

3.3 Recriwtio a Hyfforddi Gweithwyr 13

3.4 Gweithrediad Busnes a Strategaeth 14

3.5 Manteision tybiedig lleoliad gwledig ar gyfer busnesau gwledig 16

3.6 Anfanteision tybiedig lleoliad gwledig ar gyfer busnes 17

3.7 Cryfderau tybiedig busnesau gwledig 18

3.8 Gwendidau tybiedig busnesau gwledig a bygythiadau iddyn nhw 19

3.9 Y cyfleoedd tybiedig ar gyfer busnesau gwledig 20

3.10 Argraffiadau o gyfleoedd i rwydweithio 21

3.11 Argraffiadau ynghylch cymorth i fusnesau 21

3.12 Argraffiadau ynghylch Llywodraeth y Cynulliad a chymorth busnes a datblygu economaidd 22

3.13 Newidiadau yng ngweithgareddau'r busnes 25

3.14 Newidiadau wedi'u Cynllunio 26

3.15 Cynhyrchion a gwasanaethau newydd 26

3.16 Defnyddio'r rhyngrwyd ymhlith Busnesau 27

3.17 Ymchwilio a Datblygu 27

3.18 Newidiadau a effeithiodd ar y busnes 28

3.19 Busnes a'r Amgylchedd 28

3.20 Ailgylchu 28

3.21 Mentrau ymwybyddiaeth amgylcheddol 29

3.22 Defnyddio ynni ymhlith busnesau 30

3.23 Y berthynas rhwng materion amgylcheddol a Busnes 30

3.24 Gwybodaeth Ariannol 30

**ADRAN 4 CRYNODEB A DIWEDDGLO 32**

4.1 Cyflwr gweithgareddau busnesau gwledig (heblaw ffermydd) yng Nghymru. 32

4.2 Agweddau ac Argraffiadau Perchnogion Busnesau yng Nghefn Gwlad Cymru 34

4.3 Busnesau gwledig a newid 36

Diweddglo 39

**APPENDIX A 40**

**APPENDIX B 41**

**APPENDIX C 42**

**APPENDIX D 50**

**APPENDIX E 58**

**APPENDIX F 59**

# ADRAN 1 RHAGYMADRODD

## 1.1 Rhagymadrodd

Mae'r adroddiad hwn yn rhoi golwg gyffredinol ar ganlyniadau arolwg o fusnesau yng nghefn gwlad Cymru gan Arsyllfa Wledig Cymru [AWC] yn ystod 2007. Yn sgil Adroddiad Busnesau 2004, dyma'r ail adroddiad i'w gynnal gan AWC ar fusnesau yng nghefn gwlad Cymru. Mae i adroddiadau 2004 a 2007 sawl tebygrwydd. Roedd gan y ddau yr un nifer yn fras o ymatebwyr; atebodd rhai o ymatebwyr arolwg 2004 yn 2007 hefyd; defnyddiodd y ddau arolwg holiadur post (er bod opsiwn e-bost wedi'i gynnig yn 2007); ac roedd rhai o'r cwestiynau yr un fath neu yn debyg. Er hynny, ar gyfer arolwg 2007 cafodd nifer o newidiadau eu gwneud i gwestiynau, gan adeiladu ar brofiad arolwg 2004; gofynnwyd cwestiynau newydd; a chynhwyswyd adrannau newydd wrth ddylunio'r holiadur.

1.2 Mae'r diffiniad o wledig a fabwysiadwyd drwy'r adroddiad hwn yn dilyn y diffiniad a ddefnyddiwyd yn ymarfer ymgynghori Llywodraeth Cynulliad Cymru ar y drafft o Gynllun Datblygu Gwledig Cymru 2007-2013. Yn fras, o dan y diffiniad hwn mae Cymru'n ymrannu fel a ganlyn:

| Dosbarthiad y Cynllun Datblygu Gwledig (RDP) | Disgrifiad | Nifer y Wardiau |
|---|---|---|
| Wardiau Gwledig | Proffil gwledig yn unig neu'n bennaf neu broffil poblogaeth tref fach. | 492 |
| Canolfan Gwasanaethau | Proffil poblogaeth drefol a chysylltiadau cryf â'r ardaloedd gwledig amgylchynol. | 51 |
| Ward Gartref | Proffil poblogaeth tref fawr ac yn chwarae rhan allweddol yn yr ardaloedd gwledig amgylchynol. | 35 |
| Ward Anghymwys | Proffil poblogaeth tref fawr yn unig heb gysylltiadau neu â chysylltiadau cyfyngedig yn unig ag ardaloedd gwledig. | 303 |

1.3 Pedair adran sydd i'r adroddiad. Ar ôl y rhagymadrodd hwn, mae Adran 2 yn nodi sail resymegol ac amcanion yr adroddiad, gan ddisgrifio'r dulliau a ddefnyddiwyd i gasglu'r data. Mae Adran 3 yn dadansoddi'r data. Yn olaf, ceir crynodeb o'r adroddiad ynghyd â diweddglo yn Adran 4.

# ADRAN 2 METHODOLEG

## 2.1 Sail resymegol yr arolwg

Cafodd Arolwg Busnesau 2007 ei ddylunio fel rhan annatod o raglen waith AWC ar gyfer 2006-2009, a'r sail resymegol isorweddol oedd:

1. y byddai'r arolwg yn ffynhonnell data ar gyfer gwaith AWC yn y dyfodol.

2. y byddai adeiladu ar Arolwg Busnesau AWC yn 2004 a'r ymatebwyr hynny a gytunodd y gellid ailgysylltu â nhw yn darparu data hydredol.

3. y byddai'r arolwg yn cydategu ac yn adeiladu ar waith a oedd wedi'i gwblhau gan AWC gan gynnwys:

    a. 'Arolwg Busnesau Gwledig 2004'
    b. 'Asesu'r Eco-economi'
    c. 'Byw a Gweithio yng nghefn gwlad Cymru'
    d. 'Gwasanaethau Gwledig yng Nghymru'

## 2.2 Amcanion yr Ymchwil

Amcanion Ymchwil yr arolwg oedd:

1. Archwilio cyflwr gweithgareddau busnesau gwledig (heblaw ffermydd) yng Nghymru.

2. Archwilio a mesur agweddau perchnogion busnesau gwledig yng Nghymru at amrywiaeth o faterion busnes, materion economaidd ac amgylcheddol.

3. Darparu cronfa ddata ar gyfer gwaith AWC ar yr eco-economi, busnesau yng nghefn gwlad Cymru, a gwaith perthynol arall.

4. Darparu data ansoddol ar agweddau perchnogion busnesau gwledig yng Nghymru at amrywiaeth o faterion busnes, materion economaidd ac amgylcheddol.

5. Dysgu pa newidiadau sydd wedi effeithio ar fusnesau yng nghefn gwlad Cymru.

## 2.3 Dyluniad yr Holiadur

Y man cychwyn ar gyfer dylunio holiadur 2007 oedd astudio Arolwg Busnesau 2004 a'r dadansoddiad o ymatebion 2004. Wedyn cafwyd proses ailadroddus o gyfarfodydd tîm AWC a drafftiau a thrwy hyn penderfynwyd pa gwestiynau o 2004 i'w cadw; pa gwestiynau i'w haddasu a'u diweddaru; a meysydd a themâu ar gyfer cwestiynau newydd. Anfonwyd drafft terfynol at ystadegwyr Llywodraeth y Cynulliad a gynigiodd rai awgrymiadau ar gyfer gwella, er nad oedd y rhain yn hanfodol. Yna cyflwynwyd yr holiadur i broses 'Cymeradwyo Arolygon Ystadegol' Llywodraeth y Cynulliad, i'w gymeradwyo.

Fel sy'n wir bob amser yn achos holiaduron cyhoeddus, un ystyriaeth bwysig wrth ddylunio oedd hyd yr holiadur a faint o amser a gymerid i'w lenwi. Gall darpar ymatebwyr benderfynu yn erbyn llenwi holiadur sy'n edrych yn rhy hir.

## 2.4 Peilotio'r holiadur

Er mwyn dysgu faint o amser a gymerai'r holiadur i'w lenwi, cafwyd dau gynllun peilot.

1. Llenwodd aelod o dîm ymchwil AWC yr holiadur o dan amodau amseru. Cyn llenwi'r holiadur, lluniodd yr ymchwilydd ddata ar gyfer busnes dychmygol. Mae'r math hwn o ymarfer yn fuddiol; yn ychwanegol at roi awgrymo o'r amser i lenwi'r holiadur, gall anghysondebau a gwallau sydd heb eu gweld o'r blaen gael eu datgelu.

2. Cysylltwyd dros y ffôn â 10 o fusnesau a oedd wedi cytuno inni ailgysylltu â nhw ar gyfer arolwg 2004. Cytunodd y busnesau hyn i beilotio'r holiadur newydd; i roi gwybod i AWC faint o amser a gymerwyd i'w lenwi; ac i roi adborth beirniadol.

Dangosodd y ddau gynllun peilot fod angen rhyw 20 munud i lenwi'r holiadur, y credid ei fod yn dderbyniol.

## 2.5 Llythyr cyflwyno

Wrth ei bostio at y busnesau, anfonwyd llythyr cyflwyno gyda'r holiadur. Amlinellodd y llythyr hwn waith AWC a'i chysylltiad â Llywodraeth y Cynulliad, gan gyfeirio at wefan AWC ar gyfer rhagor o wybodaeth. Pwysleisiodd y llythyr mai mater gwirfoddol oedd llenwi'r holiadur; y câi'r holl wybodaeth ei thrin yn gwbl gyfrinachol; ac na fyddai enwau'r ymatebwyr yn cael eu datgelu. Gofynnwyd i'r holiadur gael ei lenwi, lle bynnag y byddai modd, gan berchennog y busnes neu ar ei ran. Un nodwedd newydd ar yr arolwg oedd y cyfle i lenwi'r holiadur yn electronig, a rhoddodd y llythyr gyfarwyddiadau ar gyfer yr opsiwn hwnnw.

Cynhyrchwyd y llythyr cyflwyno yn Gymraeg a Saesneg. Ceir copïau yn Atodiadau A a B.

## 2.6 Cynnwys yr Holiadur

Roedd yn yr holiadur terfynol wyth adran. Er bod y mwyafrif o'r cwestiynau'n gofyn am dic neu rif, gofynnwyd am rywfaint o ddata ansoddol hefyd. Defnyddiai rhai o'r cwestiynau raddfeydd pum-pwynt Likert, sy'n hwylus o ran mewnbynnu a dadansoddi.

### *Adran 1 – Darlun o'r Busnes a'r Perchennog*

Gofynnodd yr adran hon am wybodaeth sylfaenol am y busnes, fel y gweithgarwch craidd, a gwybodaeth fywgraffyddol am y perchennog, gan gynnwys cymwysterau a hyfforddiant busnes.

### *Adran 2 – Ynglyn â'ch Gweithwyr*

Roedd Adran 2 yn casglu data am nifer, rhyw a statws gweithwyr, a pha mor bell o'r busnes y cafodd y gweithwyr eu recriwtio. Hefyd, roedd cwestiwn am y Cynllun Cofrestru Gweithwyr, sy'n cofrestru gweithwyr o'r gwladwriaethau sydd wedi ymaelodi'n ddiweddar â'r UE.

### *Adran 3 – Cyflogi a Hyfforddi eich Gweithwyr*

Roedd y cwestiynau hyn yn ymwneud â'r cyfryngau a ddefnyddiai busnesau i recriwtio gweithwyr ac argraffiadau'r ymatebwyr o'r cyflenwad llafur a hyfforddiant i weithwyr.

### *Adran 4 – Gweithrediad eich Busnes a Strategaeth*

Dyma adran hiraf yr holiadur, ac roedd yn cynnwys amryw o ddulliau: ticio blychau, graddfeydd Likert, a data meintio' ac ansoddol. Roedd y cwestiynau'n ymwneud â'r pynciau canlynol: cynlluniau busnes, cyfryngau hysbysebu, niferoedd cyflenwyr a chwsmeriaid, gweithgareddau noddi, rhwydweithiau busnes, ac amryw o gwestiynau ansoddol ynghylch manteision

ac anfanteision lleoliadau busnes gwledig ac argraffiadau o gryfderau a gwendidau'r busnes.

### *Adran 5 – Cefnogaeth Busnes*

Yn yr adran hon, gofynnwyd i berchnogion busnesau bwyso a mesur ansawdd y cymorth a ddarperid gan amryw o asiantaethau, ac asesu'n feirniadol rôl Llywodraeth y Cynulliad wrth gefnogi busnesau.

### *Adran 6 – Newidiadau mewn Gweithgareddau Busnes*

Gofynnodd yr adran hon am fanylion newidiadau yn arferion y busnes dros y pum mlynedd diwethaf, a hefyd a oedd y busnes yn bwriadu ehangu yn ystod y ddwy flynedd nesaf.

### *Adran 7 – Eich Busnes a'r Amgylchedd*

Yn y blynyddoedd diwethaf, mae cysylltiadau â'r amgylchedd naturiol wedi dod i'r amlwg. Gofynnodd yr adran hon am ddata ar ailgylchu, cymryd rhan mewn mentrau amgylcheddol, defnyddio ynni ac agweddau ar reoliadau amgylcheddol.

### *Adran 8 – Gwybodaeth Ariannol*

Gofynnodd yr adran hon am ddata ar gofrestru ar gyfer TAW, trosiant ac elw blynyddol. Hefyd, gofynnwyd i'r ymatebwyr roi amlinelliad o'r rhesymau dros unrhyw newidiadau.

### *Manylion ar gyfer ailgysylltu*

Yn olaf, diolchwyd i'r ymatebwyr am gymryd rhan a gofyn iddyn nhw roi eu manylion cysylltu os oedden nhw'n fodlon inni ailgysylltu â nhw ar gyfer ymchwil yn y dyfodol.

Cynhyrchwyd yr holiadur yn Gymraeg a Saesneg. Ceir copïau yn Atodiadau C a D.

## 2.7 Creu'r Sampl ar gyfer yr Arolwg

I sicrhau cysondeb ag Arolwg Busnesau 2004, a ddadansoddodd 1008 o ymatebion, roedd gan yr arolwg hwn darged o sicrhau ymateb gan 1000 o fusnesau. Roedd i'r boblogaeth a dargedwyd ddwy elfen:

1. Ymatebwyr i arolwg 2004 a gytunodd y caen ni ailgysylltu â nhw. Roedd 442 o'r rhain.

2. Ymatebwyr newydd, y cafwyd eu manylion cysylltu gan frocer data masnachol. Yr elfennau data a gynhwyswyd oedd:

- Enw'r busnes
- Cyfeiriad
- Enw personol cysylltwr
- Rhif ffôn
- Dosbarthiad Diwydiannol Safonol [SIC]
- Gweithgarwch craidd y busnes
- Nifer y gweithwyr
- Trosiant

I sicrhau bod yr arolwg yn gynrychioliadol, cafodd sampl haenedig o'r boblogaeth darged ei chreu fel a ganlyn.

1. Cafodd y rhestr o Sectorau Cod Post sy'n ffurfio'r Gymru wledig ei llunio drwy ddefnyddio dadansoddiad ffit orau. Os oedd y cyfan o'r sector cod post y tu fewn i ffiniau'r naw awdurdod lleol mwyaf gwledig (Ynys Môn, Gwynedd, Conwy, Sir Ddinbych, Powys, Ceredigion, Sir Benfro, Sir Gaerfyrddin a Sir Fynwy) neu ffiniau'r wardiau sy'n wledig yn bennaf yn y tri awdurdod lled-wledig (Sir y Fflint, Wrecsam, a Bro Morgannwg) yna cafodd ei gynnwys i'w ddefnyddio yn yr arolwg.

2. Cafodd cyfanswm y boblogaeth yn y Sectorau Cod Post gwledig hyn ei gyfrifo.

3. Cafodd poblogaeth y busnesau ym mhob un o'r Sectorau Cod Post gwledig ei chyfrifo.

4. Drwy ddefnyddio'r ffigurau yn (2.) a (3.) uchod, cafodd nifer y busnesau ym mhob Sector Cod Post ei gyfrifo fel canran o'r cyfanswm o fusnesau gwledig. Y canrannau hyn yw'r gyfran wirioneddol o'r cyfanswm y mae ei hangen ar gyfer sampl haenedig.

5. I integreiddio'r 442 o 'ail-gysylltiadau posibl':
   a. Cawsant eu grwpio yn ôl Sector Cod Post a chafodd y cyfanswm ym mhob Sector Cod Post ei gyfrifo.
   b. Cafodd y cyfanswm ym mhob Sector Cod Post yn y boblogaeth wreiddiol (3.) llai cyfanswm yr 'ail-gysylltiadau posibl' yn y Sector Cod Post hwnnw (5a.) ei gyfrifo.
   c. Cafodd y nifer (5b.) ei fynegi fel canran o gyfanswm y busnesau gwledig.

6. Rhoddodd y brocer data masnachol sampl ar hap o 8,000 o fusnesau, gan ddefnyddio cyfrannau (5c.) ar gyfer y Sectorau Cod Post gwledig.

7. Pan gafwyd y gronfa ddata hon, cafodd y 442 o 'ail-gysylltiadau posibl' eu hychwanegu ati.
   a. Daeth hyn â'r niferoedd a'r cyfrannau yn ôl i'r cyfrannau gwirioneddol yr oedd eu hangen ar gyfer sampl haenedig.
   b. Gan fod y 442 o 'ail-gysylltiadau posibl' wedi'u sicrhau o sampl ar hap, ac am eu bod yn ymatebion ar hap, cafodd yr elfen ar hap ei chadw.

## 2.8 Gweinyddu'r Arolwg

Er lles y costau ac er mwyn defnyddio'r adnoddau yn y modd gorau posibl, cafodd tasgau, megis llungopïo a llenwi amlenni, ynghyd â phostio'r arolwg eu contractio allan. Anfonwyd y post cyntaf yn ail wythnos mis Gorffennaf 2007. Cafodd pob darpar ymatebydd busnes becyn a oedd yn cynnwys:

- Llythyr cyflwyno Saesneg
- Llythyr cyflwyno Cymraeg
- Holiadur Saesneg
- Holiadur Cymraeg
- Amlen 'ymateb busnes' wedi'i chyfeirio at AWC ym Mhrifysgol Caerdydd.

Gofynnodd y llythyr cyflwyno gyda'r post cyntaf i'r holiadur gael ei lenwi erbyn dydd Gwener 3 Awst 2007, gan ganiatáu rhwng 3 a 4 wythnos i'r ymatebwyr lenwi'r holiadur.

Isel oedd yr ymateb i'r post cyntaf; mae'n bosibl bod cyfres o streiciau post cenedlaethol dros y cyfnod hwn wedi effeithio arno. Cafodd ail becyn, fel uchod ond gyda llythyr atgoffa, ei anfon yn ystod wythnos olaf mis Awst 2007 at y busnesau hynny a oedd heb ymateb. Estynnodd y llythyr ymateb y dyddiad ar gyfer dychwelyd yr holiadur hyd at 21 medi 2007 gan bwysleisio gwerth y data ymchwil o fusnesau gwledig. Cafodd ei gynhyrchu yn Gymraeg a Saesneg. Ceir copïau yn Atodiadau E ac F.

Ar gyfer y pecyn atgoffa, rhoddwyd sylw i ddau fanylyn. Yn gyntaf, cafodd yr amlen ei chyfeirio at y busnes, nid at berchennog wedi'i enwi fel yn achos y post cyntaf. Y teimlad oedd ei bod yn bosibl na fyddai

llythyr personol yn cael ei agor pe bai pobl wedi symud y mlaen ac y gallai gael ei ddychwelyd neu ei daflu. Yn ail, yn hytrach nag argraffu logo ail ddosbarth ar yr amlen, fel yn achos y post cyntaf, cafodd stamp ail ddosbarth ei ddefnyddio. Unwaith eto, credid bod yna bosibilrwydd arall dros daflu'r post cyntaf, sef y syniad bod tuedd i bobl gysylltu logo ail ddosbarth wedi'i argraffu â phost 'sothach' na ofynnwyd amdano, sydd yn aml yn cael ei daflu heb ei agor. Er bod y stamp yn costio mwy, mae'n debyg bod elusennau'n defnyddio'r dull hwn i wella'r gobaith y caiff yr amlen ei hagor.

## 2.9 Ymatebion yr Arolwg

Daeth cyfanswm o 1034 o ymatebion i law, sef:

- Saesneg drwy'r Post 958
- Cymraeg drwy'r Post 52
- Saesneg yn Electronig 22
- Cymraeg yn Electronig 2

Yr is-gyfansymiau ar gyfer 'ail-gysylltiadau' ac 'ail-gysylltiadau posibl' oedd:

- Ail-gysylltiadau o 2004 (442 yn bosibl)
- Ail-gysylltiadau posibl a ddychwelwyd = 255

## 2.10 Dadansoddi'r Data

Cafodd yr ymatebion i'r holiaduron eu bwydo i'r 'Pecyn Ystadegol ar gyfer y Gwyddorau Cymdeithasol' [SPSS] i'w dadansoddi. Ar gyfer yr adroddiad hwn cafodd set o draws-dabliadau eu cynhyrchu ar gyfer pob cwestiwn, i greu gwybodaeth ansoddol. Mae gan yr SPSS y cyfleuster hefyd i gofnodi data ansoddol. Cafodd yr ymatebion ansoddol hyn eu dadansoddi'n thematig. Gan gyfuno'r dadansoddiadau meintiol ac ansoddol mae'r adroddiad yn rhoi golwg gyffredinol ar gyflwr gweithgareddau busnes gwledig (heblaw ffermydd) yng Nghymru, ac agweddau perchnogion busnesau gwledig yng Nghymru at amrywiaeth o faterion busnes, materion economaidd ac amgylcheddol. Lle'r oedd yn briodol, gwnaed cymhariaeth rhwng canlyniadau arolwg 2004 a chanlyniadau Arolwg Busnesau Gwledig 2007 AWC.

# ADRAN 3 CANLYNIADAU A DADANSODDIAD

Fel yr amlinellwyd yn Adran 2, cafodd yr holiaduron a ddychwelwyd eu bwydo i'r SPSS a'u dadansoddi. Mae'r adrannau canlynol yn rhoi disgrifiad amlinellol o'r dadansoddiad. Mae rhywfaint o'r dadansoddi'n ymwneud â data bywgraffyddol a hanesyddol; rhywfaint â chanlyniadau mesuradwy; a rhywfaint ag ymatebion ansoddol. Lle bo'n briodol, cymherir ag Arolwg Busnesau AWC 2004.

## 3.1 Darlun o'r Busnes a'r Perchennog

Roedd yr adran hon yn galw am wybodaeth sylfaenol am y busnes, megis y gweithgarwch craidd, a gwybodaeth fywgraffyddol am y perchennog, gan gynnwys cymwysterau a hyfforddiant busnes.

### *Y Math o Fusnes*

Ar gyfer arolwg 2007, dosbarthwyr y busnesau drwy ddefnyddio 11 o gategorïau, a oedd yn dyblygu'r rhai a ddefnyddiwyd yn Arolwg Busnesau 2004. Mae Tabl 3.1 yn dangos cyfran yr ymatebwyr ym mhob categori ar gyfer 2004 a 2007.
Yn fras, roedd 2007 a 2004 yn debyg, ac roedd y mwyafrif o'r busnesau a arolygwyd yn parhau yn y categorïau Manwerthu (20%); Llety, Bwyd a Diod (17%); ac Adeiladu (10%). Er hynny, yn arolwg 2007 roedd Gwasanaethau (10%) a Chludiant (9%) yn amlwg. Er mai Manwerthu oedd y categori â'r nifer fwyaf o gynrychiolwyr, sylwch iddo weld gostyngiad o 12 pwynt canran yn 2007 o'i gymharu â 2004.

**Tabl 3.1 Y mathau o Fusnesau a arolygwyd**

| Math o Fusnes | 2004 | 2007 |
|---|---|---|
| 1. Gwasanaethau Amaethyddol | 5% | 4% |
| 2. Adeiladu | 10% | 10% |
| 3. Llety, Bwyd a Diod | 18% | 17% |
| 4. Gweithgynhyrchu | 8% | 9% |
| 5. Manwerthu | 32% | 20% |
| 6. Gwerthu Tir | 2% | 3% |
| 7. Cyfanwerthu | 7% | 4% |
| 8. Iechyd a Harddwch | 9% | 8% |
| 9. Cludiant | 3% | 9% |
| 10. Gwaith Elusennol a Chymdeithasol | 3% | 5% |
| 11. Gwasanaethau | 3% | 10% |

### *Dechrau'r busnes*

Y flwyddyn gynharaf y soniwyd amdani ar gyfer dechrau busnes yn yr arolwg oedd 1640, a dechreuodd 11 o fusnesau newydd yn 2007.

- roedd 6% o'r busnesau a arolygwyd wedi'u dechrau yn y pum mlynedd diwethaf (2002 – 2007)
- roedd 11% wedi'u sefydlu er 2000
- cafodd 24% eu sefydlu yn y 1990au
- cafodd 51% eu sefydlu rhwng 1950 a 1989
- cafodd 10% eu sefydlu yn hanner cyntaf yr 20fed ganrif (1900 – 1949)
- cafodd 3% eu sefydlu yn y 19eg, y 18fed a'r 17eg ganrif

Y flwyddyn gynharaf yr oedd perchennog cyfredol wedi dechrau busnes oedd 1941, gydag un busnes arall yn dechrau yn 1942. O ran sut roedd y perchnogion wedi dechrau ymwneud â busnes, roedd 44%

o'r ymatebwyr i'r arolwg wedi dechrau'r busnes; roedd 10% o'r ymatebwyr wedi ymgymryd â'r busnes gan aelod arall o'r teulu; roedd 21% o'r ymatebwyr wedi prynu'r busnes; roedd 13% o'r perchnogion wedi dechrau ymwneud â'r busnes mewn ffordd arall heb fanylu arni; ac atebodd y 12% arall mo'r cwestiwn. Mae dangos sut y daeth y perchnogon i gysylltiad â'r busnes ar ffurf tabl yn rhoi rhywfaint o syniad o gryfder gweithgarwch busnes mewn cyfnod o amser, ac ymrwymiad a stamina perchnogion y busnesau.

**Tabl 3.2 Y degawd y dechreuodd y perchnogion cyfredol ymwneud â'r busnes**

| Degawd | Ei ddechrau | Ei gymryd drosodd gan y teulu | Ei brynu | Arall |
|---|---|---|---|---|
| 1941 – 1949 | 1% | | | |
| 1950 – 1959 | 2% | 3% | 1% | 2% |
| 1960 – 1969 | 5% | 10% | 1% | |
| 1970 – 1979 | 11% | 13% | 4% | 8% |
| 1980 – 1989 | 37% | 24% | 20% | 17% |
| 1990 – 1999 | 32% | 32% | 30% | 26% |
| 2000 – 2007 | 13% | 18% | 44% | 47% |

### *Ffactorau pwysig wrth ddechrau busnes*

Gofynnwyd i'r ymatebwyr sgorio amrediad o ffactorau a allai effeithio ar eu penderfyniad i ddechrau menter busnes. Mae Tabl 3.3 yn dangos y canlyniadau.

**Tabl 3.3 Pwysigrwydd cymharol ffactorau wrth ddechrau busnes**

| | Pwysig Iawn | Pwysig | Heb fod yn Bwysig | Amherthnasol |
|---|---|---|---|---|
| Annibyniaeth | 60% | 29% | 6% | 5% |
| Gwella incwm | 44% | 39% | 13% | 4% |
| Cadw incwm yn sefydlog | 41% | 44% | 6% | 9% |
| Parhau busnes teuluol | 21% | 11% | 6% | 62% |
| Manteisio ar gyfle yn y farchnad | 29% | 38% | 12% | 21% |
| Arall – nodwch beth | 32% | 11% | 2% | 55% |

Mae'r pethau 'eraill' a nodwyd yn cynnwys ffactorau dyngarol megis 'darparu gwasanaeth i'r gymuned' a 'chadw swyddfa bost y pentref ar agor', a ffactorau personol megis 'bod yn hapus'. Roedd yn ymddangos bod gwahaniaeth rhwng Arolwg 2007 ac Arolwg Busnesau 2004. Gofynnodd Arolwg Busnesau 2004 gwestiwn uniongyrchol - 'ydych chi'n credu bod y busnes yn fusnes teuluol' - a gyrhaeddodd 79%. Mae Tabl 3.3 yn dangos bod o leiaf 62% o'r ymatebwyr yn 2007 heb gymryd busnes teuluol drosodd.

### *Rhyw ac Oedran perchnogion busnesau*

O ran rhyw, gwrywod oedd 79% o berchnogion y busnesau - 21% yn fenywod. O ran oedran, roedd 10% o dan 40 ac roedd 17% dros 65. Roedd y rhan fwyaf o'r perchnogion busnesau, sef 71%, rhwng 40 a 64 oed. Mae hyn yn cymharu â 79% ar gyfer yr un grwp oedran yn arolwg 2004.

### *Cymwysterau'r perchnogion*

Mae Tabl 3.4 yn dangos cymwysterau uchaf perchnogion busnes yr arolwg, gan gymharu'r canlyniadau ag arolwg 2004.

**Tabl 3.4 Cymwysterau uchaf perchnogion busnesau**

| Cymhwyster | 2007 | 2004 |
|---|---|---|
| Gradd Uwch / NVQ Lefel 5 | 17% | 9% |
| Gradd / NVQ Lefel 4 | 21% | 21% |
| Safon Uwch / NVQ Lefel 3 | 11% | 16% |
| Lefel O /TGAU/ NVQ Lefel 1 – 2 | 22% | 22% |
| Dim | 17% | 21% |
| Eraill | 11% | 11% |

Roedd canlyniadau 2004 a 2007 yn debyg yn fras. Er hynny, cafwyd cynnydd cyffredinol yn y safonau yn yr ystyr bod llai o ymatebwyr heb gymwysterau a bod gan gryn dipyn yn fwy gymhwyster ôl-raddedig neu gymhwyster cyfatebol yn 2007. Yn 17% roedd hyn bron yn un ym mhob pump o ymatebwyr, a oedd yn ymddangos yn uchel. O gofio bod y cwestiwn wedi gofyn am y cymhwyster uchaf, mae'n bosibl mai'r cynnydd hwn mewn cymwysterau addysg uwch sy'n gyfrifol am y gostyngiad o bum pwynt yn 2007 ar gyfer ymatebwyr â Safon Uwch neu gymhwyster cyfatebol.

Roedd y cymwysterau 'eraill' a nodwyd yn cynnwys prentisiaethau, City & Guilds, diplomâu cenedlaethol, a chymwysterau fel meddyg neu nyrs.

### *Hyfforddiant Busnes Ffurfiol*

Mae hyfforddiant ffurfiol mewn busnes yn dod yn fwyfwy pwysig o ran cyrff mawr. Er hynny, dangosodd canlyniadau'r arolwg nad oedd hyn yn wir yn achos busnesau bach a chanolig yng nghefn gwlad Cymru - dim ond 28% o'r ymatebwyr oedd wedi cael hyfforddiant ffurfiol mewn busnes.

Adlewyrchwyd y gyfran gymharol isel hon o ymatebwyr â chymwysterau ffurfiol ym marn yr ymatebwyr am bwysigrwydd hyfforddiant busnes. Yn 40%, doedd gan y gyfran fwyaf o'r ymatebwyr ddim barn gref am bwysigrwydd hyfforddiant busnes ffurfiol, ac er bod 35% yn cytuno ei fod yn bwysig roedd 25%yn credu nad oedd yn bwysig, gyda 10% o'r anghytunwyr yn 'anghytuno'r gryf' fod hyfforddiant busnes ffurfiol yn bwysig.

Roedd y cymwysterau hyfforddiant busnes a oedd gan yr ymatebwyr yn cynnwys yr enwog Athro mewn Gweinyddu Busnes [MBA] o brifysgolion blaenllaw megis Caerfaddon, Cranfield, Manceinion a Warwick; y BA mewn Astudiaethau Busnes; cyfrifyddiaeth siartredig a chymwysterau eraill mewn cyfrifyddiaeth; tystysgrifau a diplomâu mewn Astudiaethau Busnes ac mewn Arlwyo a Rheoli mewn Gwestai ar lefel Gyffredin a lefel Uwch; Dyfarniad Rheolwyr Cofrestredig NVQ lefel 4; hyfforddiant mewnol gan ffyrmiau megis Bass Charrington, Harrods, Jaeger a W H Smith; a chynllun Awdurdod Datblygu Cymru 'Be your Own Boss'.

### *Rhwydweithiau Busnes a Phroffesiynol*

Gofynnwyd i'r ymatebwyr a oedden nhw'n aelodau o gymdeithas broffesiynol, cymdeithas fusnes neu gymdeithas

fasnach - roedd 45% yn aelodau. O ran pa mor ddefnyddiol oedd aelodaeth o gymdeithas, roedd 36% yn cytuno ei bod yn ddefnyddiol, gyda 12% o'r rhain yn 'cytuno'n gryf'; doedd gan 32% ddim barn ar y mater; a doedd 32% ddim yn gweld bod aelodaeth yn ddefnyddiol.

Roedd y cymdeithasau proffesiynol, y cymdeithasau busnes a'r cymdeithasau masnach a enwyd yn cynnwys Ffederasiwn y Busnesau Bach, ac o ran niferoedd roedd hwn yn amlwg iawn; sefydliadau proffesiynol siartredig megis y sefydliadau ar gyfer Cyfarwyddwyr, Cyfrifwyr Siartredig, Coedwigwyr a Pheirianwyr; cymdeithasau cenedlaethol megis Prifathrawon, Uwch-Bobyddion, Cartrefi Gofal a Threfnyddion Angladdau; urddau masnachol; cymdeithasau i feddygon a nyrsys; y Colegau Brenhinol; a'r Gymdeithas Cludiant Ffyrdd.

## 3.2 Ynglyn â'r Gweithwyr

Galwodd yr adran hon am wybodaeth am weithwyr gan y 64% o'r busnesau a arolygwyd a oedd â gweithwyr cyflogedig. Roedd cyfanswm o 663 o fusnesau'n cyflogi 11,075 o weithwyr, sef cyfradd o 17 (16.7) o weithwyr i bob busnes. O'i chymryd dros boblogaeth yr arolwg i gyd, gostyngodd y gyfradd i 11 (10.7) o weithwyr i bob busnes. Mae Tabl 3.5 yn dangos y niferoedd ym mhob categori o weithiwr.

**Tabl 3.5 Nifer y Gweithwyr fesul Categori**

| Niferoedd y gweithwyr | Rheolaidd amser-llawn | Rheolaidd rhan-amser | Tymhorol amser-llawn | Tymhorol rhan-amser | Achlysurol |
|---|---|---|---|---|---|
| Gweithwyr gwryw | 5178 | 643 | 171 | 138 | 287 |
| Gweithwyr benyw | 2453 | 1573 | 82 | 252 | 298 |
| Cyfansw m G a B = 11075 | 7631 | 2216 | 253 | 390 | 585 |

Fel mae'r ymchwil flaenorol wedi'i ddangos, roedd mwy o weithwyr gwryw amser llawn na benyw a mwy o weithwyr benyw rhan-amser na gwryw.

### *Dalgylch recriwtio*

Roedd yr wybodaeth y gofynnwyd amdani yn cynnwys hyd a lled dalgylch y busnes ar gyfer recriwtio gweithwyr. Yn lleol yr oedd y rhan fwyaf o'r gweithwyr yn cael eu recriwtio: roedd 64% wedi'u recriwtio o fewn 10 milltir i'r gweithle; 24% o rhwng 10 a 50 milltir; 7% o fwy na 50 milltir ond o fewn y DU; a 5% o'r tu allan i'r DU. O ran cymhariaeth, dywedodd Arolwg Busnesau 2004 fod 12% o'r gweithwyr wedi'u recriwtio o fwy nag 20km (12.5 milltir) a 3% o'r tu allan i'r DU.

### *Y Cynllun Cofrestru Gweithwyr*

Gofynnwyd i'r busnesau a oedd ganddyn nhw weithwyr ar y Cynllun Cofrestru Gweithwyr [WRS], sy'n cofrestru gweithwyr o'r gwladwriaethau sydd wedi ymaelodi yn ddiweddar â'r UE. Isel oedd y ffigurau gyda 17 o fusnesau yn cyflogi cyfanswm o 74 o weithwyr WRS. O ran cyfran, roedd gan lai

na 2% o'r busnesau a arolygwyd weithwyr WRS, ac roedd llai na 0.7% o'r gweithwyr wedi'u cofrestru ar y WRS. Roedd amrediad o niferoedd o weithwyr WRS yn cael eu cyflogi gan fusnesau unigol. Roedd saith o fusnesau'n cyflogi un gweithiwr WRS ac roedd y niferoedd eraill o weithwyr WRS i bob busnes yn amrywio rhwng dau a deuddeg, ac roedd gan un busnes 20 o weithwyr WRS.

## 3.3 Recriwtio a Hyfforddi Gweithwyr

### *Dulliau Recriwtio*

Fel yn Arolwg Busnesau 2004, gofynnwyd i'r ymatebwyr pa ddulliau yr oedden nhw'n eu defnyddio i recriwtio gweithwyr. Mae Tabl 3.6 yn cymharu canlyniadau 2004 a 2007. Roedd canlyniadau 2004 a 2007 yn weddol debyg, a'r gair llafar oedd y dull mwyaf poblogaidd, a 'phapurau newydd lleol' yn ail yn 2004 ac yn drydydd yn 2007. Sylwch nad oedd 'Canolfan Waith' yn gategori ar wahân yn 2004 ond ei fod wedi'i gynnwys o dan ddulliau 'Eraill' – y Ganolfan Waith oedd yr ail ddull mwyaf poblogaidd yn 2007.

**Tabl 3.6 Dulliau a Ddefnyddiwyd i Recriwtio Gweithwyr**

| | Papurau newydd lleol | Papurau newydd cenedlaethol | Radio/ teledu lleol | Canolfan Waith | Rhyngrwyd | Gair Llafar | Eraill | Dim |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| 2007 | 27% | 3% | 1% | 28% | 7% | 43% | 8% | 6% |
| 2004 | 32% | 2% | 2% | - | 8% | 40% | 7% | 12% |

Roedd y dulliau 'Eraill' yn cynnwys asiantaethau recriwtio; posteri mewn lleoliadau fel ffenestri siopau lleol, canolfannau cymunedol, colegau a chlybiau chwaraeon; rhwydweithiau proffesiynol; y Tudalennau Melyn; Go Wales; Gyrfa Cymru; cyfweliadau yn yr ysgol; cyfnodolion proffesiynol a chyfnodolion masnach.

### *Ansawdd y dulliau recriwtio ac ansawdd yr ymgeiswyr am gyflogaeth*

Gofynnwyd i ymatebwyr yr arolwg ymateb i gyfres o ddatganiadau ynghylch dulliau recriwtio ac ansawdd yr ymgeiswyr am gyflogaeth.

Cytunodd cyfran fawr o'r ymatebwyr (63%) ei bod yn anodd recriwtio gweithwyr â'r sgiliau priodol. O ddadansoddi'r canlyniadau, gwelwyd bod 34% yn cytuno'n gryf; bod 29% yn cytuno bod rhywfaint o anhawster; bod 21% heb farn gref ar y pwnc; bod 11% yn anghytuno bod yna anhawster; a bod 6% yn anghytuno'n gryf.

Tebyg oedd y cydbwysedd o ran argaeledd ymgeiswyr ar gyfer gwaith, gyda 50% o'r ymatebwyr yn cytuno i ryw raddau fod yna brinder ymgeiswyr. Dangosodd dadansoddiad fod 25% yn cytuno'n gryf fod prinder ymgeiswyr; bod 25% arall yn cytuno bod prinder; nad oedd gan 26% farn; bod 6% yn anghytuno bod prinder; a bod 8% yn anghytuno'n gryf.

O ran perfformiad asiantaethau recriwtio ffurfiol (e.e. Canolfannau Gwaith) roedd tair gwaith yn fwy o ymatebwyr yn credu nad oedden nhw'n darparu ymgeiswyr da nag a oedd yn credu eu bod yn darparu

ymgeiswyr da. Y ffigurau oedd bod 38% yn anghytuno eu bod yn darparu ymgeiswyr da, a bod 13% yn cytuno eu bod yn darparu ymgeiswyr da. O ddadansoddi'r canlyniadau, gwelwyd bod 15% yn anghytuno'n gryf fod yr asiantaethau recriwtio ffurfiol yn darparu ymgeiswyr da; bod 23% yn anghytuno bod yr asiantaethau recriwtio ffurfiol yn darparu ymgeiswyr da; nad oedd gan 50% farn gref; bod 9% yn cytuno bod yr asiantaethau recriwtio ffurfiol yn darparu ymgeiswyr da; a bod 4% yn cytuno'n gryf.

Adlewyrchwyd y ganran uchel o fusnesau a oedd yn defnyddio rhwydweithiau anffurfiol i recriwtio (gweler Tabl 3.6 uchod - 43%) yn yr argraffiadau o ba mor ddefnyddiol oedd y rhwydweithiau hyn, gyda 50% yn cytuno eu bod yn ddefnyddiol yn erbyn 16% a oedd yn anghytuno. Dangosodd dadansoddiad fod 19% yn cytuno'n gryf fod rhwydweithiau anffurfiol yn ddefnyddiol; bod 31% yn cytuno; nad oedd gan 34% farn; bod 11% yn anghytuno; a bod 5% yn anghytuno'n gryf.

O'i gymryd gyda''i gilydd roedd y data hwn yn awgrymu mesur o anfodlonrwydd ar yr asiantaethau recriwtio ac ar ansawdd y gweithwyr posibl. Adlewyrchai hyn ganfyddiadau Arolwg Busnesau 2004, a gynhyrchodd ganlyniadau tebyg er ei fod yn gofyn set wahanol o gwestiynau am y materion hyn. Er enghraifft, dangosodd canlyniadau Arolwg Busnesau 2004:

- fod 62% o'r ymatebwyr wedi nodi 'diffyg ymgeiswyr'
- fod 66% wedi awgrymu nad oedd gan ymgeiswyr brofiad gwaith priodol
- fod 48% wedi cyfeirio at ddiffyg hyfforddiant academaidd/proffesiynol

### *Hyfforddiant Sgiliau i Weithwyr*

Gofynnwyd i ymatebwyr yr Arolwg ymateb i gyfres o ddatganiadau ynghylch eu hargraff o hyfforddiant sgiliau i weithwyr.

O ran cost hyfforddiant sgiliau, cytunodd mwy o'r ymatebwyr, sef 40%, fod hyfforddiant sgiliau yn rhy ddrud nag a anghytunodd, sef 24%. Dangosodd y dadansoddiad fod 15% yn cytuno'n gryf fod hyfforddiant sgiliau'n rhy ddrud; bod 25% yn cytuno; nad oedd gan 36% farn gref; bod 16% yn anghytuno; a bod 8% yn anghytuno'n gryf.

Er hynny, cafwyd rhywfaint o awgrym bod hyfforddiant sgiliau o ansawdd dda gan fod 56% yn cytuno bod hyfforddiant sgiliau yn dda a dim ond 13% yn anghytuno. O ddadansoddi'r canlyniadau hyn, cafwyd bod 21% yn cytuno'n gryf fod hyfforddiant sgiliau yn dda; bod 35% yn cytuno; nad oedd gan 32% farn gref; bod 9% yn anghytuno; a bod 4% yn anghytuno'n gryf.

Roedd yr argraffiadau o hygyrchedd hyfforddiant sgiliau yn rhannu'n weddol gyfartal, gyda 34% yn cytuno bod hyfforddiant sgiliau yn hawdd ei gael a 29% yn anghytuno. Dangosodd y dadansoddiad fod 6% yn cytuno'n gryf fod hyfforddiant sgiliau yn hawdd ei gael; bod 28% yn cytuno; nad oedd gan 37% farn gref; bod 20% yn anghytuno; a bod 9% yn anghytuno'n gryf.

Y broblem ynghylch hyfforddiant sgiliau, mae'n ymddangos, felly, oedd y gost, er bod yna awgrymiadau y gallai fod yn anodd ei sicrhau.

## 3.4 Gweithrediad Busnes a Strategaeth

### *Cynlluniau Busnes a Chynlluniau Marchnata*

Ar y cyd â gweld angen cynyddol am hyfforddiant a chymwysterau ffurfiol mewn busnes, a nodwyd yn 3.1, mae rhai

busnesau yn cynhyrchu cynllun busnes ysgrifenedig a chynllun marchnata ysgrifenedig. Adlewyrchwyd y gyfran gymharol isel o berchnogion busnes yn yr arolwg a oedd wedi cael hyfforddiant busnes ffurfiol yn y gyfran o'r busnesau hynny a oedd â chynllun busnes a chynllun marchnata ysgrifenedig: 31% yn unig oedd â chynllun busnes ysgrifenedig, a dim ond 18% oedd â chynllun marchnata ysgrifenedig

### *Hysbysebu Cynhyrchion a Gwasanaethau*

Mae Tabl 3.7 yn dangos y dulliau a oedd yn cael eu defnyddio gan fusnesau yn arolwg 2007 i hysbysebu cynhyrchion a gwasanaethau, o'i gymharu ag arolwg 2004.

**Tabl 3.7 Y Dulliau a Ddefnyddid i Hysbysebu Cynhyrchion a Gwasanaethau**

| | Papurau newydd lleol | Papurau newydd cenedlaethol | Radio/ teledu lleol | Rhyngrwyd | Gair Llafar | Eraill | Dim |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| 2007 | 40% | 6% | 8% | 40% | 59% | 30% | 12 % |
| 2004 | 49% | 5% | 8% | 27% | 72% | 18% | 6% |

Roedd canlyniadau 2007 a 2004 yn debyg yn fras yn y categorïau ar gyfer papurau newydd lleol, papurau newydd cenedlaethol, a radio a theledu lleol. Gwelwyd newidiadau mawr o ran y cynnydd wrth ddefnyddio'r rhyngrwyd i hysbysebu. I gyd-fynd â'r cynnydd o 13 pwynt canran mewn hysbysebu ar y rhyngrwyd cafwyd gostyngiad mewn hysbysebu ar lafar. Er nad oedd yna gysylltiad o reidrwydd, mae'n ddiddorol dyfalu ynghylch y rôl gynyddol sy'n cael ei chwarae gan y rhyngrwyd ym mywydau pobl.

### *Lleoliad Cyflenwyr a Chwsmeriaid*

Gofynnwyd i'r ymatebwyr roi'r gyfran fras o'u cyflenwyr a'u cwsmeriaid a oedd wedi'u lleoli rhyw bellter penodol o'r busnes: lai nag 20 milltir; rhwng 20 a 60 milltir; mwy na 60 milltir ond yn y DU; a'r tu allan i'r DU. Mae Tabl 3.8 yn dangos cyfran y busnesau a arolygwyd sydd â chyflenwyr a chwsmeriaid ym mhob amrediad. Hefyd, mae'r tabl yn dangos cyfran y busnesau a arolygwyd a oedd yn dibynnu 100% ar gwsmeriaid neu gyflenwyr ym mhob amrediad penodol.

**Tabl 3.8 Pellter cwsmeriaid a chyflenwyr**

| Amrediad | % o gyfanswm y busnesau â chwsmeriaid a chyflenwyr yn yr amrediad | | % o gyfanswm y busnesau a oedd yn dibynnu ar gwsmeriaid a chyflenwyr yn yr amrediad | |
|---|---|---|---|---|
| | Cwsmeriaid | Cyflenwyr | Cwsmeriaid | Cyflenwyr |
| Llai nag 20 milltir | 70% | 55% | 11% | 6% |
| 20 – 60 milltir | 62% | 50% | 3% | 4% |
| Mwy na 60 milltir | 53% | 58% | 2% | 8% |
| Y tu allan i'r DU | 22% | 13% | 0.3% | 0.5% |

O ran yr amrediad byr o *Lai nag 20 milltir*, nid yw'n syndod bod gan 70% o fusnesau gwsmeriaid o fewn radiws o 20 milltir, y gellid bod wedi disgwyl iddo fod yn uwch. Canran gymharol isel, sef 11%, o gyfanswm y busnesau oedd â 100% o'r cwsmeriaid yn yr amrediad pellter hwn.

### *Mathau o Gwsmer a'r Gwerthiannau y maen nhw'n eu Cynhyrchu*

Roedd gwerthiannau'n cael eu cynhyrchu gan amryw o fathau o gwsmer. Ar gyfer yr arolwg, dynodwyd y categorïau canlynol: preifat ac aelwydydd, siopau, busnesau bach, busnesau mwy, y sector cyhoeddus, cyfanwerthwyr a dosbarthwyr, ac eraill. Mae Tabl 3.9 yn dangos cyfran y gwerthiannau a gynhyrchid gan y categorïau o gwsmer. Hefyd, mae'r tabl yn dangos cyfran y busnesau a arolygwyd a oedd yn dibynnu 100% ar werthu i gategori penodol gwsmer.

**Tabl 3.9 Math o Gwsmer**

| Math o gwsmer | % o gyfanswm y busnesau â'r math o gwsmer | % o gyfanswm y busnesau a oedd yn dibynnu ar y math o gwsmer |
|---|---|---|
| Preifat ac aelwydydd | 74% | 25% |
| Siopau | 19% | 0.3% |
| Busnesau Bach | 39% | 0.4% |
| Busnesau Mwy | 30% | 2% |
| Sector Cyhoeddus | 31% | 1% |
| Cyfanwerthwyr a Dosbarthwyr | 9% | 1% |
| Eraill | 7% | 0.5% |

Roedd y mathau eraill o gwsmer y soniwyd amdanyn nhw yn cynnwys y sector addysg annibynnol; sector is-gontractio y diwydiant adeiladu; y sectorau gwirfoddol ac elusennol; ffermydd; gwersylloedd gwyliau; y sector allforio; gwerthu'n uniongyrchol i'r fasnach; ac eglwysi.

### *Noddi gweithgareddau'r gymuned leol*

Roedd mwy na hanner y busnesau a arolygwyd (53%) yn noddi gweithgareddau yn y gymuned leol. Roed y gweithgareddau a noddid yn cynnwys amryw o glybiau, timau a digwyddiadau ar gyfer chwaraeon megis athletau, rygbi, nofio, pêl-rwyd, golff; hoci, pêl-droed, criced, tennis, paffio a karate; gwyliau bwyd; ysbytai ac ambiwlansys awyr; cartrefi Dr Barnados; cymdeithasau cwn; timau dartiau a phwl; grwpiau cefnogi canser a hosbisau; clybiau merlod a gweithgareddau eraill gyda cheffylau; radio ysbytai; Corfflu Hyfforddi'r Awyr; digwyddiadau ysgolion; sefydliadau yn y celfyddydau; carnifalau; badau achub; gwyliau cymunedol; regatas; yr Eisteddfod; sioeau amaethyddol; sgowtiaid, geidiau, brownies a chybiau; Gwyl Canu'r Felan Dinbych-y-pysgod; a chystadlaethau aredig. Hefyd, roedd busnesau'n gwneud rhoddion i elusennau a chyrff megis RNLI, NSPCC, ymchwil canser, eglwysi ac elusennau lleol, gydag un ymatebydd yn rhoi 10% o'r elw blynyddol i elusen.

Rhoddwyd dau brif reswm dros beidio â noddi gweithgareddau lleol, a rhesymau ariannol oedd y ddau. Yn gyntaf, dywedodd rhai busnesau na allen nhw fforddio nawdd neu roddion. Yn ail, dadleuai busnesau eraill nad oedd cymhellion neu fanteision ariannol ynghlwm wrth noddi.

## 3.5 Manteision tybiedig lleoliad gwledig ar gyfer busnesau gwledig

O ran manteision tybiedig rhedeg busnes mewn tref fach neu ardal wledig, cyfeiriai llawer o'r ymatebwyr at ansawdd bywyd gwell mewn ardaloedd gwledig. Cyfeiriwyd at olygfeydd hardd cefn gwlad Cymru, ar y

tir a'r arfordir, ac at y trefi marchnad bach dymunol. Dywedwyd bod yna fywyd arafach; gwell cydbwysedd rhwng gwaith a bywyd; a llai o droseddau nag mewn ardaloedd mwy trefol.

Roedd rhai o'r manteision eraill a grybwyllwyd yn ymwneud ag ansawdd bywyd. Roedd y ffyrdd yr oedd bywyd y wlad, gyda'i phoblogaeth lai o'i chymharu ag ardaloedd trefol, yn datblygu ysbryd cymunedol yn amlwg iawn yn nisgrifiadau'r ymatebwyr. Dadleuwyd wedyn fod hyn yn arwain at hwyluso rhwydweithiau lleol o deulu, cyfeillion, cwsmeriaid a chyflenwyr, ac at adeiladu enw da cryf i'r busnes. Soniodd yr ymatebwyr yn ffafriol am ansawdd staff lleol. Mewn rhai achosion roedd yr ymatebwyr wedi symud i gefn gwlad Cymru ac mewn achosion eraill roedden nhw wedi'u geni yma gan gyfeirio ar gysylltiadau cryf â lle ac â hunaniaeth Gymreig. Ar y llaw arall, mewn perthynas â lle, cafwyd cyfeiriadau at 'werth snobyddlyd' lleoliad gwledig.

I rai, roedd yna fanteision economaidd tybiedig o wneud busnes yng nghefn gwlad Cymru. Y ffordd orau i grynhoi'r rhain yw drwy gyfrwng y detholiad canlynol o ddyfyniadau gan ymatebwyr:

> *"[Rydyn ni] yn bysgodyn mawr mewn pwll bach."*
>
> *"Mae'r gystadleuaeth yn llai ffyrnig."*
>
> *"Fi yw'r unig Swyddfa Bost o fewn deng milltir."*
>
> *"Does neb yma sy'n debyg i Tesco."*
>
> *"Byddai agor Tesco neu Asda gerllaw yn drychineb - felly mae tref sydd â phoblogaeth sy'n rhy fach i fod o ddiddordeb iddyn nhw yn rhywbeth cadarnhaol i ni."*

Manteision economaidd eraill y cyfeiriwyd atyn nhw oedd costau is, gorbenion is, eiddo fforddiadwy ac amserau a chostau cymudo llai neu gwbl absennol.

Yn ychwanegol at fanteision personol y costau o ran cymudo, credid hefyd ei bod yn fanteisiol ar raddfa fyd-eang, sef costau ac allyriannau carbon, gyda sawl perchennog yn pwyntio at gostau carbon is busnesau gwledig. Yn wir, honnodd un ymatebydd hyn:

> *"Dwi'n gallu cynhyrchu fy mhwer fy hun o'r gwynt, y dwr a thanwydd coed."*

## 3.6 Anfanteision tybiedig lleoliad gwledig ar gyfer busnes

Cyfeiriodd yr ymatebwyr hynny a welai anfanteision mewn gwneud busnes yng nghefn gwlad Cymru at nifer o faterion cydblethedig. Roedden nhw'n tueddu i ddisgrifio cefn gwlad Cymru fel lle ac iddo boblogaeth isel ei dwysedd; economi isel ei gyflogau; ac incwm isel i'w wario. Ar sail yr argraffiadau sylfaenol hyn llifai dadleuon nad oedd llawer o gwsmeriaid ar gael a fawr ddim masnach wrth basio heibio, gydag elfen dymhorol bendant, a marchnadoedd cyfyngedig. Yn ychwanegol, roedd diffyg ymgeiswyr am swyddi; cronfa fach o lafur medrus; a'r argraff fod y cyraeddiadau addysgol yn isel:

> *"[Mae] diffyg gweithwyr posibl oherwydd safonau addysgol anhygoel o isel. Mae'n beth ofnadwy pan fydd rhywun yn methu hyd yn oed â sillafu enw pwnc mae ganddo TGAU ynddo!"*

Roedd yna anawsterau tybiedig mewn denu personél a rheolwyr lefel uchel i'r ardal. Ar ben hynny, dywedwyd bod yr enillwyr da a oedd yn byw yn lleol yn tueddu i gymudo i drefi a gwario'u harian yno yn hytrach na defnyddio siop y pentref.

Un o'r prif anfanteision ariannol tybiedig oedd y costau, megis tanwydd, yn sgil yr angen i deithio o amgylch yr ardal leol ac o i fannau pellach i ffwrdd. Roedd yr anfanteision costus tybiedig eraill yn cynnwys trethi busnes uchel, yn sgil tynnu rhyddhad trethi gwledig yn ôl; costau uchel nwyddau yn y siopau lleol a mannau manwerthu eraill; a'r ffioedd uwch na'r hyn oedd yn cael ei haeddu a oedd yn cael eu codi gan grefftwyr lleol, oherwydd eu bod yn gymharol brin, a chan y rhai a oedd yn gorfod teithio i'r ardal i wneud gwaith. Roedd y teimlad o fod yn bell oddi wrth gwsmeriaid a chyflenwyr yn cael ei waethygu gan ffyrdd gwael; cludiant cyhoeddus annigonol; a mynediad gwael yn gyffredinol i gludiant a gwasanaethau eraill. Enghreifftiau penodol o wasanaethau oedd diffyg prif gyflenwad dwr; diffyg cysylltiad band eang; a chysylltiadau rhyngrwyd annibynadwy.

Er bod rhwydweithiau cymunedol gwledig, yn unol â'r drafodaeth yn Adran 3.5, yn cael eu gweld fel mantais gan rai, dadleuai eraill y gallen nhw fod yn anfantais. Pe bai perchennog busnes yn gwneud camgymeriad neu'n peri gofid i rywun, awgrymwyd y gallai hynny arwain at gau'r busnes a'r perchennog allan o rwydweithiau lleol, gan arwain at golli masnach ac elw.

Yn olaf, roedd awgrymiadau bod yna economi amgen, ar draul busnesau cyfreithlon. Er enghraifft, awgrymodd yr ymatebydd hwn fod pobl leol ar fudd-daliadau lles yn rhedeg masnach anghyfreithlon mewn metel sgrap:

> *"Rwy'n ceisio gwneud popeth cyfreithlon yn fy musnes i ond mae rhai o'r bobl leol ar fudd-dal yn prynu lorri fach i fynd â sgrap i wneud arian ar gyfer cwrw - a gyrru fy musnes i i lawr."*

### 3.7 Cryfderau tybiedig busnesau gwledig

Pan ofynnwyd beth oedd prif gryfderau eu busnes cyfeiriodd yr ymatebwyr at amryw o ffactorau, yr oedd cysylltiad rhyngddyn nhw weithiau. Gallai llawer o'r rhain fod yn wir am unrhyw fusnes, mewn ardal wledig neu drefol. Er enghraifft, roedd ansawdd dda yn amlwg. Yma roedd ansawdd yn cyfeirio at waith crefftus, gwasanaeth, cysylltiadau â chwsmeriaid a chynhyrchion. Credai rhai busnesau fod natur unigryw eu cynnyrch yn gryfder mawr, megis 'Timberkits' a'r 'unig reilffordd fynydd rac a phiniwn yn y DU'. Ffactor a oedd yn gysylltiedig â hyn fel ffynhonnell cryfder busnes tybiedig oedd annibyniaeth oddi wrth fusnesau mwy a 'middlemen'.

Credid bod ffactorau personél hefyd yn gryfder mawr. Cyfeiriwyd yn benodol at hyblygrwydd; manteision busnes teuluol; ac at sgiliau a hyfforddiant personél, yn enwedig sgiliau arbenigol ac arbenigedd technegol.

Roedd gwledigrwydd yn agwedd ar leoliad a welid fel cryfder. Roedd y busnesau a gyfeiriai at leoliadau manteisiol yn cynnwys tafarndai, gwestai a busnesau twristiaeth. Cryfder arall a allai gael ei gysylltu'n uniongyrchol â mannau gwledig oedd 'lleolrwydd'. Roedd hyn yn gysylltiedig ag adnabod cwsmeriaid; cysylltiad personol â chwsmeriaid; bod yn rhan o'r gymuned leol; dibynadwyedd y busnes; ac adeiladu enw da. Cyfeiriodd sawl busnes at y ffaith mai nhw oedd yr unig siop mewn pentref fel cryfder amlwg.

Yn olaf, dywedodd rhai busnesau eu bod mewn marchnad arbenigol. Er nad yw hyn yn gryfder gwledig fel y cyfryw, roedd llawer o'r busnesau hyn wedi'u seilio ar y Gymraeg a'r diwylliant Cymreig, a allai roi lle penodol iddyn nhw yn y farchnad.

## 3.8 Gwendidau tybiedig busnesau gwledig a bygythiadau iddyn nhw

Er inni ofyn dau gwestiwn ar wahân i'r ymatebwyr am yr hyn yr oedden nhw'n eu gweld fel prif wendidau eu busnes, a'r hyn yr oedden nhw'n ei weld fel bygythiad i'r busnes, roedd tuedd i gyfuno'r ddau. Yn wir, gallai rhai o'r ymatebion fod wedi cael eu cynnwys hefyd o dan 'Anfanteision' yn 3.6. Yn hytrach na chynnig dwy adran, mae'r ymatebion ar gyfer 'gwendidau' a 'bygythiadau' wedi'u cyfuno yn yr adroddiad hwn.

Nid oedd yn syndod bod nifer fawr o fusnesau'n cyfeirio at faterion ariannol fel gwendidau a bygythiadau. Crybwyllwyd amryw o faterion gan gynnwys llif arian; proffidioldeb; diffyg cyfalaf ac anawsterau i gael gafael ar gyfalaf; dyledion drwg; a chyfraddau cyfnewid arian. Roedd y materion ariannol eraill yn cynnwys cynnydd cyffredinol mewn gorbenion gan gyfeirio'n benodol at gostau tanwydd, taliadau banc, taliadau parcio, a oedd yn atal cwsmeriaid posibl, a threthi ar eiddo busnes. O ran y macroeconomi, cyfeiriodd rhai busnesau at ddirywiad yn yr economi lleol, gwledig; problemau yn economi'r DU; a rhag-weld dirwasgiad byd-eang.

Er y byddai'n anarferol i fusnesau beidio â sôn am eu cystadleuwyr, cafwyd rhai sylwadau diddorol. Roedd nifer o fusnesau'n poeni am fygythiad aml-gwmnïau anferth, gyda Tesco'n cael ei enwi'n benodol gan sawl un. Roedd pryder cyffredinol ynghylch uwchfarchnadoedd, yn enwedig uwchfarchnadoedd ar gyrion trefi. Credid bod masnachu ar y rhyngrwyd yn fygythiad mawr; roedd yn arwain at golli masnach yn uniongyrchol ac yn gyrru prisiau i lawr. Yn yr un modd, roedd gan gystadleuaeth dramor effaith ddeublyg: roedd masnach yn cael ei cholli oherwydd mewnforion rhad, ac oherwydd cystadleuaeth am ymwelwyr ar ffurf awyrennau rhad. Er bod rhai ymatebwyr yn cwyno am y gystadleuaeth o du gweithredwyr 'cowboi', fyddai'r rhain ddim o reidrwydd yn anghyfreithlon. Er hynny, gan adlewyrchu'r sylwadau a gyflwynwyd yn 3.6, soniodd ymatebwyr eraill fod yna economi amgen mewn rhannau o gefn gwlad Cymru.

Roedd materion personél yn ymrannu'n ddau: personol a staff. Roedd sawl un o'r busnesau yn fentrau un person a oedd yn golygu llwyth gwaith trwm; oriau hir - dywedodd un ymatebydd ei fod yn gweithio dros 60 awr yn yr wythnos waith; a diffyg cymorth a oedd yn atal pobl rhag cymryd gwyliau ac yn golygu bod busnes yn cael ei golli pe bai salwch yn taro. Credai rhai ymatebwyr fod eu diffyg sgiliau rheoli, eu diffyg profiad busnes a'u diffyg hyfforddiant busnes ffurfiol yn wendid, a drafodwyd yn 3.1. Soniwyd am amrywiaeth o faterion staff, yr oedd rhai ohonyn nhw'n cyd-fynd â'r diffyg sgiliau tybiedig a nodwyd yn 3.3. Soniodd perchenogion busnesau am ddiffyg llafur; diffyg cymhelliant ac ymroddiad ymhlith staff; a phrinder pobl ifanc yn dod drwodd i waith a gyrfaoedd; a cholli staff, a oedd yn aml yn ymadael â'r swydd a'r ardal leol ar ôl cael hyfforddiant ac ennill cymhwyster ffurfiol ar draul y busnes. Gyda'i gilydd, roedd y materion hyn yn awgrymu carfan o berchnogion busnes a gweithlu sy'n heneiddio

Ategwyd yr awgrym uchod bod y garfan o berchnogion busnes yn yr arolwg yn heneiddio gan y data bywgraffyddol a drafodwyd yn 3.1. Dangosodd y data hwn fod llai na 2% o berchnogion busnes o dan

30 oed a bod 10% o dan 40. Roedd y niferoedd o berchnogion cymharol ifanc yn cymharu â 71% o berchnogion rhwng 40 a 64, a 17% dros 65. Mae rhagor o ategiad ar gael yn y data ar ddechrau busnesau. Yn 51%, roedd dros hanner y busnesau a arolygwyd wedi'u sefydlu rhwng 1950 a 1989, gydag 11% yn cael eu sefydlu er 2000.

Daeth set arall o faterion i'r amlwg ynghylch cwsmeriaid. Dywedwyd bod y garfan o gwsmeriaid yng nghefn gwlad yn heneiddio ac yn crebachu. Un enghraifft benodol a roddwyd gan filfeddygfa oedd bod llai o bobl yn cadw anifeiliaid anwes yn ddiweddar, ac yn enwedig cwn. Roedd dibyniaeth dymhorol ar gwsmeriaid penodol megis ymwelwyr neu fyfyrwyr yn cael ei gweld fel gwendid mewn rhai busnesau. Yn yr un modd, roedd dibynnu ar un sector o gwsmeriaid, megis ffermwyr, yn cael ei weld fel gwendid; pan fyddai busnes y cwsmer yn dioddef, roedd eu cyflenwyr yn dioddef hefyd.

Gwelid y llywodraeth ar lefel genedlaethol a lleol fel bygythiad i fusnes. Dadleuwyd bod gormod o reoliadau i fusnes a gormod o ddeddfu. Roedd deddfwriaeth iechyd a diogelwch yn y gwaith a'r gwaharddiad diweddar ar ysmygu yn dargedau penodol yn hyn o beth. Ceryddwyd llywodraeth leol am godi taliadau parcio; am drethi busnes uchel; am fethu hybu ardaloedd a phentrefi gwledig mewn perthynas â thwristiaeth; ac am ddiffyg buddsoddi yng nghefn gwlad Cymru yn gyffredinol.

Gwelwyd amryw o fygythiadau i fusnesau ar ffurf bygythiadau i weithgarwch awyr agored, megis clwy'r traed a'r genau yn 2001, a arweiniodd at galedi i lawer o fusnesau gwledig; diffyg lle i ehangu busnesau; a dwyn a fandaliaeth.

### 3.9 Y cyfleoedd tybiedig ar gyfer busnesau gwledig

Roedd y cyfleoedd i fusnesau yng nghefn gwlad Cymru a enwyd gan yr ymatebwyr i'r arolwg yn ymwneud yn bennaf ag agor ac ehangu marchnadoedd, er bod nifer o gyfleoedd ar gyfer busnesau penodol wedi'u nodi hefyd. Gwelai rhai y cynnydd yn y boblogaeth hyn fel cyfle ar gyfer busnes. Cyfleoedd marchnad eraill a enwyd oedd y sector amgylcheddol cynyddol ac ymwybyddiaeth cwsmeriaid gwyrdd; y farchnad ar gyfer ansawdd a bwydydd organig a bwyta'n iach; gweithgareddau awyr agored; a marchnadoedd allforio, yn enwedig India a Tsieina. Cyfeiriai busnesau at dwf parhaus y diddordeb mewn garddio a chynllunio'r tirlun; y cyfleoedd a oedd yn cael eu darparu gan gynhyrchion gwerth ychwanegol; twf twristiaeth a theithio byd-eang; a marchnadoedd arbenigol, ffyrdd o fyw a brandiau premiwm. Roedd yna argraff hefyd fod yr hunaniaeth Gymreig a lleoliad yng nghefn gwlad Cymru yn rhoi cyfleoedd ar gyfer busnes.

Un cyfle a welwyd yn eang, ac a welwyd fel bygythiad hefyd (adran 3.8), oedd gwerthu drwy'r rhyngrwyd. Rhywbeth a oedd yn gysylltiedig â'r rhyngrwyd oedd gwerthu drwy'r post, a oedd yn cael ei weld gan rai fel ffordd ymlaen:

> *"Mae rhenti a threthi uchel yn golygu na fydd siopau recordiau'r stryd fawr yn para lawer yn hirach."*

Roedd y cyfleoedd ar gyfer sectorau busnes penodol yn cynnwys yr argraff bod yna gynnydd mewn gorfodaeth drwy gyfrwng rheoliadau (e.e. iechyd a Diogelwch), a oedd yn creu busnes ar gyfer crefftwyr ac ymarferwyr â chymwysterau. Cyfeiriai eraill at y newid sydd yn yr arfaeth i deledu digidol; galw newydd am ffabrigeiddio oddi ar y safle yn

y busnes adeiladu; ac angen cynyddol am ofal preswyl:

> *"Ers i'r ysbytai seiciatrig gael eu cau ac ers y polisi o ofal yn y gymuned, mae yna rai pobl y bydd angen gofal preswyl arnyn nhw bob amser."*

## 3.10 Argraffiadau o gyfleoedd i rwydweithio

Yn olaf, yn yr adran hon ar waith a strategaethau busnes, gofynnwyd i y matebwyr yr arolwg ymateb i ddau ddatganiad ynghylch eu hargraff o ddefnyddioldeb rhwydweithiau. Roedd y datganiad cyntaf yn ymwneud â rhwydweithiau busnes a chyfeiriodd yr ail at ba mor ddefnyddiol oedd rhwydweithiau teuluol mewn busnes.

O ran pa mor ddefnyddiol oedd rhwydweithiau busnes, o'r rhai a oedd yn eu defnyddio, roedd 25% yn anghytuno bod rhwydweithiau busnes yn ddefnyddiol; o'r rhai a oedd yn anghytuno, roedd 8% yn 'anghytuno'n gryf'. Cytunodd 31% fod rhwydweithiau busnes yn ddefnyddiol, gyda 9% o'r rhain yn 'cytuno'n gryf'. Hefyd doedd 44% ddim yn cytuno nac yn anghytuno. I ryw raddau, roedd y diffyg brwdfrydedd o blaid rhwydweithiau busnes yn adlewyrchu'r canlyniadau cynharach yn yr adroddiad hwn ynghylch pa mor ddefnyddiol oedd cymdeithasau busnes, lle'r oedd 36% yn cytuno eu bod yn ddefnyddiol; 32% yn anghytuno; a 32% heb gytuno nac anghytuno.

O ran rhwydweithiau teuluol a pha mor ddefnyddiol oedden nhw mewn busnes, o'r rhai a oedd yn ymwneud â nhw, roedd 28% yn anghytuno bod rhwydweithiau teuluol yn ddefnyddiol; o'r rhai a oedd yn anghytuno, roedd 12% yn 'anghytuno'n gryf'. Ymhlith y rhai a oedd yn cytuno bod rhwydweithiau teuluol yn ddefnyddiol mewn busnes, roedd 24% yn 'cytuno' a 14% yn 'cytuno'n gryf'. Hefyd, doedd 35% ddim yn cytuno nac yn anghytuno. Gellid dadlau bod y gyfran gymharol uchel o ymatebwyr (38%) a gytunodd fod rhwydweithiau teuluol yn ddefnyddiol mewn busnes yn cyd-fynd â'r 50% a gredai fod rhwydweithiau anffurfiol yn ddefnyddiol ar gyfer recriwtio.

## 3.11 Argraffiadau ynghylch cymorth i fusnesau

Mae'r ddarpariaeth o ran cymorth a chyngor i fusnesau yn ffactor pwysig wrth ddatblygu'r economi. Gofynnwyd i'r y matebwyr sgorio ansawdd y cymorth a'r cyngor i fusnes a oedd ar gael oddi wrth amrediad o asiantaethau. Mae Tabl 3.10 tyn dangos y canlyniadau.

**Tabl 3.10 Sgorio cymorth a chyngor i fusnesau**

| | Da iawn | Da | Boddhaol | Gwael | Gwael Iawn | Heb eu defnyddio erioed |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Llywodraeth Cynulliad Cymru | 5% | 10% | 22% | 11% | 6% | 46% |
| Awdurdodau Lleol | 3% | 11% | 27% | 15% | 10% | 34% |
| Asiantaethau Menter | 2% | 7% | 23% | 12% | 6% | 50% |
| Undebau/ Siambrau Masnach | 1% | 4% | 18% | 9% | 4% | 64% |
| Cymdeithasau Masnach [1] | 6% | 18% | 25% | 7% | 3% | 42% |

[1] Ceir 'cyfeiliornad talgrynnu' o 1% yn y canlyniadau ar gyfer Cymdeithasau Masnach.

Roedd patrwm yn y canlyniadau hyn. O'r busnesau hynny a oedd yn defnyddio gwasanaeth, ym mhob achos roedd y mwyafrif o'r farn ei fod yn 'foddhaol'. Ond, ac eithrio Cymdeithasau Masnach, roedd mwy o ddefnyddwyr yn dweud bod y gwasanaethau yn 'wael' neu'n 'wael iawn' nag a oedd yn dweud eu bod yn 'dda' neu'n 'dda iawn'. Yn wir, cafodd Asiantaethau Menter 18% 'gwael' yn erbyn 9% 'da', ac Undebau / Siambrau Masnach 13% 'gwael' a 5% 'da': yn y ddau achos roedd y gyfran 'wael' dwywaith neu fwy yn uwch na'r gyfran 'dda'. Cafodd yr Awdurdodau Lleol 25% 'gwael', sef bron yr un fath â'r 27% 'boddhaol'. Ar sail hyn fe ellid casglu bod profiad gwael yn creu mwy o argraff ar ddefnyddwyr gwasanaethau na phrofiad da.

Roedd cyfran y busnesau a oedd yn defnyddio'r gwasanaethau cymorth hyn yn debyg i gyfran Arolwg Busnesau 2004. Roedd sefydliadau 'eraill' ar gyfer cymorth a chyngor wedi'u defnyddio gan 20% o fusnesau. Ar gyfer y gwasanaethau 'eraill' hyn, cafodd 21% eu disgrifio fel rhai 'da' neu 'dda iawn', a 5% fel 'gwael' neu 'wael iawn'. Roedd y gwasanaethau 'eraill' yn cynnwys banciau, rhwydwaith Arena, Croeso Cymru a chymdeithasau twristiaeth lleol, gweithredwyr masnachfreintiau, cyflenwyr, Parc Cenedlaethol Eryri, NFU, LANTRA, yr Ymddiriedolaeth Garbon, Cyngor Cenedlaethol Adeiladwyr Tai, WRU, Cyngor Chwaraeon Cymru, a'r WDA.

### 3.12 Argraffiadau ynghylch Llywodraeth y Cynulliad a chymorth busnes a datblygu economaidd

Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru yn weithredwr pwysig wrth ddatblygu economi cefn gwlad. Gofynnwyd amryw o gwestiynau i'r busnesau am eu perthynas â Llywodraeth y Cynulliad a'u hargraff ohoni. O'r busnesau a arolygwyd, roedd 2% wedi manteisio'n uniongyrchol ar fentrau ariannol Llywodraeth y Cynulliad. Y rhai pennaf y mhlith y mentrau a enwyd gan y matebwyr oedd detholiad o grantiau ar gyfer gweithgareddau gwahanol, a weinyddid gan amryw o gyrff. Roedd busnesau wedi cael grantiau ar gyfer buddsoddi, peiriannau, technoleg, hyfforddiant, manwerthu gwledig, prosesu a marchnata, datblygu, darparu band eang, a dechrau busnes. Roedd y sefydliadau gweinyddol yn cynnwys Menter Ranbarthol, RSA, Bwrdd Croeso Cymru, ac Adfywio. Roedd rhai busnesau wedi cael benthyciadau busnes gan Gyllid Cymru ac roedd eraill wedi elwa o dan Amcan 1. Cyfeiriwyd hefyd at y Rhaglen Gwella technoleg a rhyddhad rhag trethi gwledig, er iddi gael ei nodi y bydd llawer o siopau yng nghefn gwlad Cymru yn cau pan ddaw hwn i ben. Dywedodd busnes arall nad oedd yna:

> *"Fawr ddim o gysylltiadau oddi wrth Lywodraeth y Cynulliad, yr awdurdod lleol neu'r Asiantaeth Menter i roi gwybod inni beth sydd ar gael."*

Dim ond 10% o fusnesau'r arolwg a oedd yn y mwybodol o *'Cymru: Economi yn Ffynnu* [WAVE], sef fframwaith strategol Llywodraeth Cynulliad Cymru ar gyfer datblygu'r economi. Hefyd, roedd y matebion i gyfres o ddatganiadau am effeithiau polisïau Llywodraeth y Cynulliad ar greu swyddi, yr economi, adfywio cymunedau, hyfforddiant sgiliau a chymorth ar gyfer busnes fel pe baen nhw'n amau pa mor effeithiol oedd polisïau Llywodraeth y Cynulliad, gyda nifer sylweddol o'r ymatebwyr yn methu ag ategu rôl Llywodraeth y Cynulliad ym mhob categori heblaw hyfforddiant sgiliau.

Er enghraifft, roedd 28% yn anghytuno bod polisi Llywodraeth y Cynulliad yn helpu i greu mwy o swyddi – o'r rhain roedd 12% yn 'anghytuno'n gryf' ac 16% yn

'anghytuno'. Ar y llaw arall roedd 18% yn cytuno bod polisi Llywodraeth y Cynulliad yn helpu i greu swyddi, gyda 13% yn 'cytuno' a 5% yn 'cytuno'n gryf'. Doed y gyfran fwyaf, sef 54%, ddim yn cytuno nac yn anghytuno.

O ran ansawdd y swyddi a oedd yn cael eu creu, roedd 30% yn anghytuno bod polisi Llywodraeth y Cynulliad yn helpu i greu swyddi o ansawdd uwch - o'r rhain roedd 12% yn 'anghytuno'n gryf' a 18% yn 'anghytuno'. O'r 14% a oedd yn cytuno bod polisi Llywodraeth y Cynulliad yn creu swyddi o ansawdd uwch, roedd 10% yn 'cytuno' a 4% yn 'cytuno'n gryf'. Unwaith eto, doedd y gyfran fwyaf, sef 56% ddim yn cytuno nac yn anghytuno.

Wrth bwyso a mesur effeithiau polisïau Llywodraeth y Cynulliad ar dwf yr economi, roedd 28% yn anghytuno eu bod yn helpu i ysgogi twf economaidd (12% yn 'anghytuno'n gryf' ac 16% yn 'anghytuno'). Ymhlith y 22% a gytunodd fod polisi Llywodraeth y Cynulliad yn helpu i ysgogi twf yr economi, roedd 17% yn 'cytuno' a 5% yn 'cytuno'n gryf'. Unwaith eto, doedd y gyfran fwyaf, sef 50% ddim yn cytuno nac yn anghytuno.

O ran effeithiau polisi Llywodraeth y Cynulliad ar adfywio cymunedau, roedd 27% yn anghytuno ei fod yn helpu i adfywio cymunedau, gydag 11% yn 'anghytuno'n gryf' ac 16% yn 'anghytuno'. O'r 23% a gytunodd fod polisi Llywodraeth y Cynulliad yn helpu i adfywio cymunedau, roedd 18% yn 'cytuno' a 5% yn 'cytuno'n gryf'. Y gyfran fwyaf oedd y 50% nad oedden nhw'n cytuno nac yn anghytuno.

O ran cymorth ar gyfer busnes, roedd 25% yn anghytuno bod polisïau Llywodraeth y Cynulliad yn helpu i wella cymorth i fusnes, gyda 12% yn 'anghytuno'n gryf' a 13% yn 'anghytuno'. O blaid Llywodraeth y Cynulliad, roedd 23% yn cytuno bod polisïau Llywodraeth y Cynulliad yn helpu i wella cymorth i fusnes (18% yn 'cytuno' a 5% yn 'cytuno'n gryf'). Er hynny, y gyfran fwyaf oedd y 52% nad oedden nhw'n cytuno nac yn anghytuno.

Yn olaf, yn yr unig gategori lle'r oedd mwyafrif bach yn cefnogi Llywodraeth y Cynulliad, roedd 24% yn cytuno bod polisïau Llywodraeth y Cynulliad yn helpu i wella hyfforddiant sgiliau, gydag 20% yn 'cytuno' a 4% yn 'cytuno'n gryf'. Yn erbyn hyn, roedd 22% yn anghytuno bod polisïau Llywodraeth y Cynulliad yn helpu i wella hyfforddiant sgiliau - roedd 9% yn 'anghytuno'n gryf' ac roedd 13% yn 'anghytuno'. Unwaith eto, doedd y gyfran fwyaf, sef 52%, ddim yn cytuno nac yn anghytuno.

### *Negeseuon Allweddol i Lywodraeth y Cynulliad gan Fusnesau Gwledig*

O ran cymorth i fusnes, gofynnwyd i'r busnesau pa negeseuon allweddol yr hoffen nhw eu hanfon at Lywodraeth y Cynulliad, a rhoddodd 59% o'r busnesau a arolygwyd negeseuon ar gyfer Llywodraeth y Cynulliad. Roedd y negeseuon hyn yn ymrannu'n bedair thema yn fras, a amlinellir yn y crynodeb sy'n dilyn.

Yn gyntaf, roedd nifer o negeseuon o gefnogaeth i Lywodraeth y Cynulliad; sylwadau ei bod yn rhoi cymorth da i fusnesau; ac anogaeth:

*"Daliwch ati gyda'r gwaith da."*

Gofynnodd rhai ymatebwyr am gael llonydd; a *"gadael i fusnes fwrw ymlaen â busnes"*. Yn yr un modd, cafwyd galwadau am leihau biwrocratiaeth a rheoliadau, yn enwedig felly am ddileu'r gwaharddiad diweddar ar ysmygu mewn mannau cyhoeddus ac am rywfaint o lacio ar reoliadau Iechyd a Diogelwch, a oedd yn cael eu gweld gan rai fel pe baen nhw'n cyfyngu ar allu busnesau i weithredu'n

broffidiol. Galwodd eraill am leihau costau megis trethi, parcio ceir a threthi lleol. Gan atseinio rhai o'r sylwadau eraill yn yr adroddiad hwn, dadleuai rhai busnesau y byddai tynnu rhyddhad rhag trethi yn ôl yn arwain at gau busnesau gwledig. Dadleuwyd hefyd fod y ddeddfwriaeth ar yr isafswm cyflog - yn enwedig codiadau uwch na chwyddiant - yn llesteirio busnesau.

Roedd rhanbartholdeb yn thema amlwg arall. Dadleuwyd bod Llywodraeth y Cynulliad yn rhoi gormod o sylw i Gaerdydd a'r De-ddwyrain a hynny ar draul busnesau mewn rhannau eraill o'r Gymru wledig. Galwyd ar Lywodraeth y Cynulliad i sefydlu swyddfeydd rhanbarthol yng nghefn gwlad Cymru.

Dadleuai rhai busnesau fod gormod yn cael ei wario ar gynhyrchu deunyddiau dwyieithog a bod gormod o sylw yn cael ei roi i addysgu iaith a diwylliant Cymru i blant. Haerai'r busnesau hyn y byddai gwario ar addysg busnes yn yr ysgolion yn creu gwell canlyniadau.

Cafwyd amheuon am safbwynt Llywodraeth y Cynulliad hefyd o ran maint busnesau. Roedd i'r dadleuon hyn ddwy ffrwd. Yn gyntaf, dywedwyd bod Llywodraeth y Cynulliad yn tueddu i ganolbwyntio ar fusnesau mawr oportiwnyddol a oedd yn aml yn ymadael â'r ardal yn ystod cyfnod o ansicrwydd economaidd. Dadleuwyd y dylai Llywodraeth y Cynulliad ganolbwyntio ar fusnesau llai a Mentrau Bach a Chanolog (MBCh), a oedd yn tueddu i ymrwymo i ardaloedd gwledig dros y tymor hir:

> *"Rydyn ni'n sylweddoli bod gweinidogion yn hoffi cael eu gweld yn agor ffatrïoedd sy'n rhoi cant o swyddi, ond y busnesau bach sy'n cadw'r arian yn yr ardal ac sy'n darparu twf economaidd a chyflogaeth gyson. Pan fydd pethau'n galed mae'r busnesau bach yn aros yn yr ardal, mae'r busnesau mawr yn mynd i wlad arall sydd ag economi sy'n ffynnu'n fwy."*

Beirniadwyd cymorth Llywodraeth y Cynulliad i gwmnïau mawr fel Tesco ac Asda hefyd.

Yn ail, dadleuwyd y dylai Llywodraeth y Cynulliad ganolbwyntio ar y canlynol a buddsoddi ynddyn nhw:

> *"… busnesau sy'n creu cyfoeth nid prosiectau i greu llwybrau drwy'r coed a neuaddau pentref."*

Dadleuwyd hefyd y dylai Llywodraeth y Cynulliad fod yn well am dargedu ei grantiau a'u buddsoddiadau. Roedd y neges hon yn gysylltiedig â phrofiad personol chwerw:

> *"Stopiwch wastraffu fy nhrethi i ar waith dibwynt. Gadawodd dau o'm gweithwyr i i ddechrau mewn cystadleuaeth yn fy erbyn i. Fel entrepreneuriaid ifanc fe gafodd y ddau grant o rywbeth fel £8000. O fewn deg mis roedd yr offer drud a'r cyfrifiaduron ar werth ar Ebay."*

Beirniadodd rhai busnesau y ffyrdd yr oedd Llywodraeth y Cynulliad yn marchnata ei mentrau a'i rhaglenni:

> *"Stopiwch newid y rhaglenni - hynny yw, aeth Cyswllt Busnes yn Llygad Busnes wedyn Dolen Busnes. Esblygwch yn lle newid. Mae yna gamddealltwriaeth sylfaenol o sut i farchnata rhaglenni o'r fath. Hysbysebion teledu - gwastraff arian. Defnyddiwch hynny ar gyfer cymorth busnes. Dydy*

*gweision sifil ddim yn deall anghenion byd busnes."*

Gallai nifer o negeseuon gan y busnesau gael eu grwpio o dan thema 'peidio â chyfathrebu'. Dywedodd rhai busnesau fod rhaid i Lywodraeth y Cynulliad wneud yn well wrth gyfathrebu â busnes. Honnodd eraill nad oedden nhw'n gwybod pwy neu beth oedd Llywodraeth y Cynulliad.

Y thema olaf yn y crynodeb hwn ar negeseuon gan fusnesau gwledig i Lywodraeth y Cynulliad yw cynllunio. Cafwyd galwadau am 'ryddhau' cynllunio. Er enghraifft:

*"Dylai'r polisi cynllunio lleol ategu twf nid ei arafu."*

## 3.13 Newidiadau yng ngweithgareddau'r busnes

Dros amser mae busnesau'n newid mewn ymateb i nifer o ffactorau gwahanol, nid lleiaf cyflwr yr economi, amodau'r farchnad ar hyn o bryd ac yn yr arfaeth, technoleg ac arloesi, a strategaethau a theimladau personol. I gael rhywfaint o ddealltwriaeth o'r newidiadau mewn gweithgareddau busnes yng nghefn gwlad Cymru, gofynnwyd amryw o gwestiynau i'r ymatebwyr a ddyluniwyd i geisio olrhain newidiadau dros y pum mlynedd diwethaf, a meddwl ymlaen am eu busnes.

Atebodd cyfran uchel, sef 94%, o'r busnesau y cwestiwn am newidiadau yn y busnes dros y pum mlynedd diwethaf, ac roedd mwy o fusnesau wedi ehangu nag a oedd wedi crebachu. O'r busnesau a ymatebodd, roedd ychydig yn fwy na 50% wedi ehangu dros y pum mlynedd diwethaf; roedd ychydig yn fwy na 35% wedi aros yr un fath; ac roedd ychydig yn llai na 14% wedi crebachu.

Gofynnwyd i'r ymatebwyr roi manylion amlinellol yr amodau a arweiniodd at ehangu, crebachu neu sefydlogi yn eu busnes. Er bod amrywiaeth eang o ffactorau wedi'u rhoi, daeth rhai themâu i'r amlwg hefyd, ac amlinellir y rhain isod.

### *Ehangu*

Y ffactorau mwyaf cyffredin y bernid eu bod yn cyfrannu at ehangu busnes oedd gwaith caled, cynhyrchion o safon a phersonél da. Yn llai cyffredinol, roedd yn ymddangos bod rôl marchnadoedd yn bwysig a sylwodd yr ymatebwyr fod marchnadoedd presennol yn ehangu a marchnadoedd newydd yn agor. Er enghraifft, roedd marchnadoedd cynyddol oherwydd cynnydd mewn rhannau o'r boblogaeth, megis myfyrwyr mewn rhai ardaloedd, a phobl hyn yng nghefn gwlad Cymru yn fwy cyffredinol. Roedd marchnadoedd newydd yn ffurfio ar gyfer cynhyrchion organig a chynhyrchion amgylcheddol a gwasanaethau carbon-niwtral. Roedd rhai ymatebwyr wedi dod o hyd i farchnadoedd arbenigol i'w cynhyrchion a'u gwasanaethau. Mewn rhai achosion, roedd cyfle wedi codi pan ymadawodd cystadleuydd â'r farchnad. Roedd yna achosion hefyd o ehangu mewn marchnadoedd a oedd heb ei rag-weld. Er enghraifft roedd cau chwareli llechi wedi arwain at gynnydd sylweddol yn y galw am lechi. Gellid credu bod hyn yn debyg i sefyllfa lle ceir prinder tir a chynnydd yn y galw am waith adeiladu.
Bernid bod adnabod a chymryd cyfleoedd mewn marchnadoedd yn bwysig er mwyn ehangu busnes. Yn y cyd-destun hwn, soniodd sawl busnes am gynlluniau busnes a chynlluniau marchnata da, a strategaeth fusnes gadarn fel ffactorau allweddol. Roedd y ffactorau hyn yn gysylltiedig â'r ymatebion am hyfforddiant a chynlluniau busnes yn 3.1 uchod.

Roedd rhwydweithio yn thema allweddol arall. Awgrymodd rhai ymatebwyr fod

argymhellion personol, y gair llafar a sefydlogrwydd yn y gymuned leol yn bwysig Iawn i fusnes mewn ardal wledig:

> *"Mewn ardal wledig, nid pawb dros ei hunan yw hi - cân di bennill mwyn i nain, a chanith nain i dithau. Mae dyn yn cefnogi cwsmeriaid drwy roi yn ôl i'r gymuned leol.*

Cyfeiriwyd at ddefnyddio'r Gymraeg a rôl hunaniaeth a diwylliant Cymru. Hefyd, roedd rhai busnesau wedi llwyddo i ehangu gyda chymorth ariannol, er enghraifft, gan Amcan 1 a Llywodraeth y Cynulliad.

### Aros yr un fath

Roedd ychydig yn fwy na 35% o'r busnesau a ymatebodd i'r cwestiwn hwn wedi aros yr un fath. Er bod rhai busnesau'n cynnig rhesymau dros aros yr un fath, megis dewis personol, diffyg lle, y lefelau busnes gorau, aros o dan drothwy TAW, busnes newydd yn cael ei draed dano, neu ym mhen arall y raddfa amser, perchennog hyn yn fodlon ar lefel fusnes benodol, roedd yn ymddangos bod llawer o'r ymatebwyr yn gweld aros yr un fath fel crebachu. Roedden nhw'n cadw at wireb byd busnes - er mwyn ffynnu rhaid i fusnes ehangu. Gan hynny, roedd llawer o'r rhesymau a gynigiwyd yn debyg i'r rhai a oedd yn ymwneud â busnesau a oedd wedi crebachu, ac amlinellir y rhain isod.

### Crebachu

O gymryd ynghyd y 14% o fusnesau a oedd wedi crebachu a'r rhai a gredai fod aros yr un fath yr un peth â chrebachu, daeth nifer o themâu i'r amlwg. Cyfeiriodd sawl ymatebydd at yr hinsawdd economaidd, a oedd wedi'i nodweddu yn eu golwg nhw gan gyfraddau llog uchel, anawsterau i sicrhau grantiau a buddsoddiadau ariannol, prisiau uchel ac elw isel. Awgrymwyd bod yr hinsawdd economaidd anffafriol hon wedi arwain at incwm isel i'w wario, a oedd yn ei dro yn cyfrannu at ostyngiad tybiedig yn niferoedd yr ymwelwyr. Dadleuwyd bod anawsterau gwneud bywoliaeth ac elw wedi'u gwaethygu gan reoliadau rhy dynn a chyfyngol, gan gynnwys y gwaharddiad diweddar ar ysmygu mewn mannau cyhoeddus, biwrocratiaeth, polisïau'r llywodraeth ac yn enwedig reoliadau cynllunio. Er hynny, dywedwyd bod rhai 'pobl fusnes' leol yn osgoi'r cyfyngiadau cyfreithiol ac, fel y trafodwyd yn gynharach yn yr adroddiad hwn, roedd yna gwynion am 'gowbois' ac economi amgen. Rheswm mwy cyffredin a gynigiwyd am grebachu oedd poblogaeth denau y Gymru wledig. Nododd llawer o'r ymatebwyr eu bod yn colli busnes yn fwyfwy i'r cadwynau mawr o uwchfarchnadoedd neu i fasnach ar y Rhyngrwyd.

## 3.14 Newidiadau wedi'u Cynllunio

Mae optimistiaeth yn ffactor o bwys mewn busnes ac roedd 40% o'r ymatebwyr yn bwriadu ehangu eu busnes yn y ddwy flynedd nesaf. Roedd y rhesymau a roddai'r ymatebwyr dros beidio â bwriadu ehangu yn cyd-fynd â'r rhai a drafodwyd uchod ynghylch crebachu. Yn yr un modd, roedd yr ymatebwyr hynny a oedd yn bwriadu ehangu yn gyfarwydd â'r ffactorau a oedd yn gysylltiedig ag ehangu diweddar dros y pum mlynedd diwethaf: estyn marchnadoedd oedd eisoes ar gael; adnabod a defnyddio marchnadoedd newydd; y twf naturiol tybiedig mewn busnes llwyddiannus; a chyflwyno ac arloesi cynhyrchion a gwasanaethau newydd.

## 3.15 Cynhyrchion a gwasanaethau newydd

Roedd y mwyafrif o'r busnesau, sef 58%, wedi cyflwyno cynhyrchion a gwasanaethau newydd dros y pum mlynedd diwethaf. O'r busnesau hynny a oedd heb wneud, roedd rhai yn ceisio optimeiddio'u hamrediad

presennol o gynhyrchion; roedd rhai yn anfodlon mentro yn yr hinsawdd economaidd gyfredol; dadleuai rhai nad oedd eu cynhyrchion a'u gwasanaethau yn addas i'w newid; ac roedd rhai yn arafu i baratoi i ymddeol. Roedd y cynhyrchion, y gwasanaethau a'r arloesiadau newydd a gyflwynwyd yn cynnwys mathau newydd o gynhyrchion; stoc newydd; cynnig dulliau talu gwahanol; cynlluniau cymhellion i gwsmeriaid; mynd i mewn i farchnadoedd newydd; a defnyddio mwy ar y Rhyngrwyd.

### 3.16 Defnyddio'r rhyngrwyd ymhlith Busnesau

Mae'r Rhyngrwyd wrth gwrs yn gallu bod yn offeryn gwerthfawr i fyd busnes a gofynnwyd i'r ymatebwyr am amledd eu defnydd ar y Rhyngrwyd dros y pum mlynedd diwethaf. O'r 67% o'r ymatebwyr a oedd â chysylltiad Rhyngrwyd, roedd y mwyafrif, sef 80%, wedi cynyddu eu defnydd dros y pum mlynedd diwethaf; roedd 18% wedi parhau yr un fath, er bod un ymatebydd wedi aros yr un fath am fod y busnes wedi bod yn ddefnyddiwr trwm ar y Rhyngrwyd bob amser; ac roedd 2% yn defnyddio llai ar y Rhyngrwyd erbyn hyn. Roedd y rhesymau dros ddefnyddio llai ar y Rhyngrwyd yn cynnwys tybiaeth nad oedd yn briodol yn nhermau'r busnes, a diffyg sgiliau, ar y cyd weithiau ag amheuaeth o effeithiolrwydd y Rhyngrwyd fel offeryn busnes ac o'i botensial ar gyfer twyll:

> *"Allwn ni ddim defnyddio'r Rhyngrwyd yn llawn achos does dim o'r sgiliau gyda ni. Mae llawer o gyrff wedi cynnig cynlluniau i'n helpu ni - ond twyll oedd y rhan fwya yn y pen draw. Mae yna gwmnïau tebyg i ni yn y DU wedi buddsoddi'n drwm yn y Rhyngrwyd, ond dwy ddim wedi gweld cynnydd yn eu busnes nhw."*

Roedd rhai ymatebwyr yn cwyno am gysylltiadau band eang annibynadwy neu gwbl absennol yng nghefn gwlad Cymru.

Ar y llaw arall, priodolai ymatebwyr eraill gynnydd yn eu defnydd ar y Rhyngrwyd i gysylltiad band eang gwell neu newydd. Roedd llawer o'r rhai a oedd yn defnyddio mwy yn credu bod y Rhyngrwyd yn angenrheidiol mewn busnes yn yr oes fodern. Soniodd y rhain fod e-bost ac e-gyfathrebu ar gael ym mhobman ac am ddefnyddio'r Rhyngrwyd ar gyfer cyfrifon a chadw'r llyfrau; fel cyfrwng hysbysebu; fel ffordd i gyfathrebu â chwsmeriaid a chyflenwyr; ac fel dull i wneud gwaith ymchwil.

### 3.17 Ymchwilio a Datblygu

Doedd y mwyafrif o'r ymatebwyr, sef 64%, ddim yn gwneud gwaith Ymchwilio a Datblygu. Y prif resymau a roddwyd oedd diffyg adnoddau, cyfyngiadau ariannol a bod dim angen amlwg. Rhoddwyd rhesymau tebyg gan yr 20% o'r ymatebwyr yr oedd eu gwaith Ymchwilio a Datblygu wedi aros yr un fath dros y pum mlynedd diwethaf a'r 1% yr oedd eu gwaith Ymchwilio a Datblygu wedi crebachu. Er hynny, roedd yr ymatebydd hwn yn gwerthfawrogi gwerth posibl cynyddu gwaith Ymchwilio a Datblygu ond yn dadlau bod yna flaenoriaethau uwch a dim gwir gymhelliant yn y gyfundrefn economaidd bresennol:

> *"…diffyg cymorth gan y llywodraeth. Byddai rhagor o ymchwilio a datblygu yn arwain at fwy o drosiant. [Ond] gyda mwy o angen am fwy o gyfalaf gweithio a chronfeydd wrth gefn, ynghyd â threth ar y gyfradd uchaf o 40% a lwfansau cyfalaf is, does yna fawr o gymhelliant."*

Yn gyffredinol, roedd yr 15% o'r ymatebwyr yr oedd eu gwaith Ymchwilio a Datblygu wedi cynyddu dros y pum mlynedd diwethaf, yn chwilio am arloesedd a newydd-deb mewn cynhyrchion, gwasanaethau a marchnadoedd, gan geisio aros ar y blaen i'w cystadleuwyr.

## 3.18 Newidiadau a effeithiodd ar y busnes

Rhoddodd pob un o'r ymatebwyr wybodaeth am yr hyn oedd yn eu barn nhw wedi creu'r newid mwyaf yn eu busnes yn y pum mlynedd diwethaf. O ddadansoddi'r wybodaeth yn thematig, daeth nifer o themâu mewndarddol i'r amlwg - sef newidiadau a grëwyd gan benderfyniadau a wnaed o fewn y busnes. Tueddai'r newidiadau hyn i gael eu gweld fel rhai cadarnhaol i'r busnes ac roedden nhw'n cynnwys newid perchnogaeth; ymgorffori, partneriaeth a materion perthynol; eiddo newydd ac ehangach; cynhyrchion newydd a'r mathau eraill o ehangu a drafodwyd uchod.

Cafwyd nifer o themâu alldarddol hefyd - sef newidiadau a grëwyd gan ffactorau allanol. Credid bod rhai o'r newidiadau a grëwyd gan ffactorau alldarddol yn gadarnhaol i'r busnes, ac eraill yn negyddol. Cyfeiriai llawer o'r ymatebwyr at gyflwyno rheoliadau y tybient eu bod yn ormodol, polisïau'r llywodraeth ac ymyrraeth y llywodraeth fel ffactorau a oedd yn niweidiol i'w busnes. Roedd yr enghreifftiau a enwyd yn cynnwys deddfwriaeth ar yr isafswm cyflog, cynnydd mewn trethi lleol, colli rhyddhad rhag trethi, a'r gwaharddiad ar ysmygu mewn mannau cyhoeddus. Ffactorau negyddol eraill o ran newid oedd cyflwyno cystadleuwyr mawr megis Tesco mewn ardal, a chynnydd cyffredinol mewn costau, yn enwedig costau ynni. Cafwyd nifer hefyd o sylwadau ansicr am ffactorau alldarddol. Er enghraifft, gwelai rhai busnesau gyflwyno band eang a gwell cysylltiad â'r Rhyngrwyd fel mantais i'w busnes; dadleuai eraill eu bod wedi colli cwsmeriaid drwy werthiannau'r Rhyngrwyd. Yn yr un modd, i rai busnesau roedd mewnlifiad llafurwyr o Ddwyrain Ewrop yn gyfle; i eraill roedd yn fygythiad.

## 3.19 Busnes a'r Amgylchedd

Yn y blynyddoedd diwethaf mae'r berthynas rhwng busnes a'r amgylchedd wedi cael ei gweld fel un fwyfwy pwysig, o ran materion megis llygredd, defnyddio ynni, a chynhesu byd-eang. Gofynnodd Arolwg Busnesau Gwledig 2007 amryw o gwestiynau a fwriadwyd i ymchwilio i agweddau ac arferion busnesau yng nghefn gwlad Cymru ynghylch yr amgylchedd.

## 3.20 Ailgylchu

Mae ailgylchu yn ffactor pwysig mewn ymwybyddiaeth amgylcheddol ac roedd 61% o'r busnesau yn yr arolwg yn ailgylchu cynhyrchion gwastraff. Roedd cyfran y gwastraff a gâi ei hailgylchu fel pe bai'n dibynnu ar y math o fusnes a honnai rhai busnesau eu bod yn ailgylchu 100% o'r deunyddiau gwastraff. Lle nododd busnesau y mathau o wastraff o dan sylw, roedd 100% yn cael ei sicrhau, er enghraifft, yn achos gwydr, metel sgrap, papur a chardfwrdd. Honnai busnesau eraill eu bod yn ailgylchu rhwng 10% ac 80%, neu rhoesant ffigurau ar gyfer mathau penodol o wastraff.

Dadleuai hyd yn oed rhai o'r busnesau hynny a oedd yn ailgylchu fod yna broblemau gyda'r gyfundrefn o reoliadau ar gyfer ailgylchu gwastraff busnes. Dywedwyd bod rhai awdurdodau lleol megis Ceredigion a Sir Benfro yn perfformio'n wael mewn ailgylchu. Cwyn fwy cyffredinol oedd nad oedd busnesau yn cael defnyddio safleoedd ailgylchu

awdurdodau lleol, a bod rhaid i fusnesau dalu yn ychwanegol i gael gwared ar eu gwastraff mewn ffordd gydnaws â'r amgylchedd - credid bod hyn yn gymhelliant i beidio ag ailgylchu. Yn wir, cyfeiriwyd at gostau ailgylchu fel ffactor lliniarol gan lawer o'r busnesau nad oedden nhw'n ailgylchu.

## 3.21 Mentrau ymwybyddiaeth amgylcheddol

Un agwedd bwysig ar ymwybyddiaeth amgylcheddol i fusnesau yw cymryd mentrau ac roedd 53% (546) o'r busnesau a arolygwyd yn cymryd rhan mewn menter amgylcheddol. Mae Tabl 3.11 isod yn dangos y mentrau amgylcheddol a oedd ar y gweill, a pha gyfran o'r boblogaeth yn yr arolwg a oedd yn cymryd rhan. Sylwch fod rhai busnesau yn cymryd rhan mewn mwy nag un fenter.

**Tabl 3.11 Mentrau amgylcheddol**

| Menter | % o Fusnesau Amgylcheddol Weithredol | % o gyfanswm y Busnesau a Arolygwyd |
|---|---|---|
| Plannu coed | 21% | 11% |
| Cydbwyso carbon | 6% | 3% |
| Prynu pwer gwyrdd | 8% | 4% |
| Defnyddio dyfeisiau ynni isel (e.e. bylbiau golau) | 89% | 47% |
| Cynhyrchu ynni ar y safle (e.e. paneli haul, tyrbinau gwynt) | 8% | 4% |
| Menter arall (gweler isod) | 10% | 5% |

Roedd y mentrau eraill yn cynnwys trosi cerbyd cwmni i fiodanwydd (sef olew llysiau gwastraff); defnyddio biodanwyddau a bio-ddisel; compostio gwastraff llysiau gwyrdd; defnyddio cynhyrchion glanhau cydnaws â'r amgylchedd; uwchraddio'r inswleiddiad; traenio drwy wely cyrs a chasglu dwr; toiledau a sestonau cyfaint-isel; bagiau sy'n pydru'n naturiol; defnyddio bwyd a deunyddiau o ffynonellau lleol; a phrynu coed o ffynonellau cynaliadwy.

Soniodd pum busnes eu bod yn aelodau o'r Ddraig Werdd, sy'n cael ei dyfarnu gan Rwydwaith Arena i'r busnesau hynny sy'n cynnal safonau amgylcheddol penodol. Ymhlith ymrwymiadau sylweddol eraill i'r amgylchedd, roedd rhaglen o wariant cyfalaf a anelai at leihau'r pwer a oedd yn cael ei ddefnyddio; dylunio safleoedd tirlun yn gydnaws â'r amgylchedd a'u gwella; a phrosiect i dalu i gynhyrchu pwer gwynt ar gyfer awyru a chynhesu dwr, a thiwbiau golau drwy ddefnyddio benthyciad gan yr Ymddiriedolaeth Garbon.

Roedd y rhesymau mwyaf niferus a roddwyd dros beidio â chymryd rhan mewn mentrau amgylcheddol yn gysylltiedig â chostau. Cafwyd rhywfaint o sinigiaeth hefyd, fel y gwelir yn y detholiad hwn o ddyfyniadau gan ymatebwyr:

> *"Twyll marchnata yw prynu pwer gwyrdd. Cynllun chwerthinllyd yw cydbwyso carbon i adael i bobl gyfiawnhau'r ffaith eu bod yn defnyddio gormod o ynni a dydy e ddim yn gwneud dim byd i atal y difrod."*
>
> *"[Mae'n] llwyth o sbwriel."*
>
> *"Ffordd arall i wneud arian yw'r holl gynlluniau 'ecogyfeillgar' hyn."*
>
> *"Con yw'r cwbl."*

Er hynny, cyfeiriwyd hefyd at reoliadau fel problem i rai a oedd yn dymuno bod yn fwy cyfeillgar i'r amgylchedd:

*“Fe hoffen ni gael paneli haul ond dydyn nhw ddim yn cael eu caniatáu mewn Parc Cenedlaethol.”*

*“Rydyn ni’n defnyddio gwerth £10000 o drydan bob blwyddyn a bydden ni wrth ein bodd pe baen ni’n cael gosod tyrbin 100Kw. Er hynny, y mwyaf y mae Parc Arfordir Penfro yn fodlon ei ganiatáu yw 6Kw am fod effaith weladwy tyrbin mwy o faint yn annerbyniol.”*

*“Fe hoffwn i ddefnyddio’n holwyn ddwr eto ond bydd rhaid talu am godi dwr er nad ydyn ni’n cadw'r dwr!”*

Dywedodd sawl un o’r ymatebwyr nad oedd ganddyn nhw’r wybodaeth am sut i ymgymryd â mentrau amgylcheddol.

### 3.22 Defnyddio ynni ymhlith busnesau

O ran defnyddio ynni, roedd 17% o’r busnesau wedi gostwng eu defnyddio dros y pum mlynedd diwethaf o’i gymharu â 54 a oedd wedi aros yr un fath, a 29% a oedd wedi cynyddu eu defnydd. Ar y sail hon, roedd bron dwywaith yn fwy o fusnesau wedi cynyddu’r ynni roedden nhw’n ei ddefnyddio nag a oedd wedi sicrhau gostyngiad.

Roedd y mwyafrif o’r rhesymau a roddwyd dros ddefnyddio mwy o ynni yn ymwneud ag ymestyn y busnes. Gallai hynny olygu mwy o bersonél, mwy o gwsmeriaid, eiddo ehangach neu offer a pheiriannau ychwanegol. Soniodd un ymatebydd am ganlyniad annisgwyl i'r gwaharddiad ar ysmygu mewn mannau cyhoeddus:

*“Gorfod defnyddio gwresogyddion a thrydan ychwanegol ar gyfer y cysgodfannau i’r ysmygwyr.”*

Priodolwyd gostyngiadau yn yr ynni oedd yn cael ei ddefnyddio i amryw o ffactorau. Roedd y rhain yn cynnwys gwell ymwybyddiaeth amgylcheddol; awydd i dorri costau; lleihau maint y busnes, arferion arbed ynni megis mwy o inswleiddio, bylbiau golau, thermostatau ac amseryddion ar reiddiaduron; a’r tywydd mwyn yn y gaeafau yn ddiweddar.

### 3.23 Y berthynas rhwng materion amgylcheddol a Busnes

Yn olaf, o ran yr amgylchedd, gofynnwyd i’r busnesau gytuno neu anghytuno â dau ddatganiad. O ran effaith rheoliadau amgylcheddol ar fusnes, ymatebodd 78% o’r busnesau. O’r rhain, cytunodd mwy nag a anghytunodd fod rheoliadau amgylcheddol yn ormod o gyfyngiad ar fusnes. Y cyfrannau oedd bod 12% yn anghytuno’n gryf; bod 17% yn anghytuno; bod 12% yn cytuno; bod 6% yn cytuno; a bod 52% heb benderfynu.

Ymatebodd ychydig yn fwy o fusnesau, sef 79%, i ddatganiad y dylai cymhellion ariannol arfaethedig i fusnesau fod yn gydnaws â’r amgylchedd. Nid yw’n syndod bod y mwyafrif yn cytuno â’r cynnig: roedd 39% yn cytuno’n gryf, roedd 32% yn cytuno; roedd 5% yn anghytuno; roedd 6% yn anghytuno’n gryf; a doedd gan 19% ddim barn ar y pwnc.

### 3.24 Gwybodaeth Ariannol

Roedd adran olaf yr arolwg yn ymwneud â gwybodaeth ariannol. Gan y gallai’r wybodaeth hon gael ei hystyried yn sensitif, wnaeth y cwestiynau ddim gofyn am ffigurau penodol, ac yn lle hynny cafodd yr ymatebwyr gynnig categorïau.

Mae busnesau â throsiant blynyddol o fwy na £64000 yn gorfod cfrestru ar gyfer Treth ar Werth [TAW], ac roedd 62% o’r busnesau a arolygwyd wedi cofrestru ar gyfer TAW. Dylid nodi nad atebodd 18% o’r busnesau a arolygwyd y cwestiwn hwn.

I roi awgrym pellach o drosiant, cynigiwyd yr amrediad safonol o fandiau trosiant a ddefnyddir gan Gyllid y Wlad i'r busnesau a gofyn iddyn nhw ddweud pa fand oedd yn briodol i'w busnes nhw. Mae Tabl 3.12 yn dangos y canlyniadau hyn. Roedd yr ymateb yn bur uchel ac atebodd 79% o'r busnesau y cwestiwn hwn.

**Tabl 3.12 Trosiant Blynyddol**

| Trosiant Blynyddol | % o'r Busnesau a ymatebodd Nifer = 822 / 1034 |
|---|---|
| Llai na £61,000 | 22% |
| £61,000-£99,999 | 11% |
| £100,000-£249,999 | 20% |
| £250,000-£499,999 | 14% |
| £500,000-£999,999 | 14% |
| £1m - £1.49m | 6% |
| £1.5m - £2.8m | 6% |
| Mwy na £2.8m | 7% |

Dros y pum mlynedd diwethaf, roedd 18% o'r busnesau a arolygwyd wedi gweld gostyngiad yn eu trosiant; roedd 58% wedi gweld cynnydd; ac roedd 24% wedi parhau â'r un trosiant.

Priodolid gostyngiad mewn trosiant i leihau maint y busnes; cynnydd mewn cystadleuaeth, yn enwedig o du'r manwerthwyr mawr; dal grantiau yn ôl; cynnydd mewn masnachu ar y Rhyngrwyd; llai o gwsmeriaid; a pholisi'r llywodraeth. Yn fras, credid bod cynnydd mewn trosiant yn deillio o waith caled a'r gwahanol ddulliau ehangu a drafodwyd uchod. Galwodd rhai busnesau am gyflwyno terfyn graddol ar gyfer cofrestru i dalu TAW, gan ddadlau nad oedd yn talu i ehangu pe bai busnes ychydig o dan y terfyn ar gyfer cofrestru ar gyfer TAW. Byddai unrhyw gynnydd yn y trosiant yn cael ei erydu, ei negyddu neu'n waeth oherwydd y costau a oedd ynghlwm wrth gofrestru ar gyfer TAW.

I gael rhywfaint o syniad o'r elw yr oedd busnesau yng nghefn gwlad Cymru yn ei wneud, gofynnodd yr arolwg i'r ymatebwyr roi syniad bras o'u helw fel canran o'u trosiant. Gwelir y canlyniadau hyn yn Nhabl 3.13

**Tabl 3.13 Elw fel Canran o'r Trosiant**

| Elw fel % o'r Trosiant Blynyddol | % o'r Busnesau a ymatebodd Nifer = 815 / 1034 |
|---|---|
| Colled neu dalu'r costau | 15% |
| Uwchlaw 0% hyd at 1% | 7% |
| Uwchlaw 1% hyd at 5% | 20% |
| Uwchlaw 5% hyd at 10% | 20% |
| Uwchlaw 10% | 39% |

Dros y pum mlynedd diwethaf, roedd 27% o'r busnesau a arolygwyd wedi gweld gostyngiad yn eu helw; roedd 42% wedi gweld cynnydd; ac roedd 31% wedi cadw'r un lefel o elw. O gymharu'r data hwn â data Tabl 3.12 ar gyfer trosiant, gwelwyd bod costau gweithredu busnes wedi tueddu i godi. Roedd y rhesymau a roddwyd dros ostyngiad mewn elw yn tueddu i ategu'r casgliad hwn, gan mai cynnydd mewn costau oedd un o'r prif resymau.

# ADRAN 4 CRYNODEB A DIWEDDGLO

Yn yr adran olaf hon, mae'r adroddiad wedi'i grynhoi o dan dri phennawd:

1. Cyflwr gweithgareddau busnesau gwledig (heblaw ffermydd) yng Nghymru.
2. agweddau ac argraffiadau perchnogion busnesau gwledig yng Nghymru ynghylch amrywiaeth o faterion busnes, materion economaidd ac amgylcheddol.
3. Newidiadau sydd wedi effeithio ar fusnesau yng nghefn gwlad Cymru, ac agweddau perchnogion busnesau at newid a'r dyfodol.

Cafodd y fframwaith hwn ei greu drwy olygu a chyfuno'r pum amcan ymchwil a nodwyd yn Adran 2. Mae'r dadansoddiad yn Adran 3 yn agos i drefn yr holiadur; mae'r crynodeb hwn yn cael ei gyflwyno'n fwy thematig. Lle bo'n briodol, cyfeirir at Arolwg Busnesau AWC 2004 a chymharu ag ef.

## 4.1 Cyflwr gweithgareddau busnesau gwledig (heblaw ffermydd) yng Nghymru.

### *Am y busnesau*

O ran y mathau o fusnesau a arolygwyd, roedd 62% wedi'u cofrestru ar gyfer TAW ac roedd y mwyafrif o'r busnesau yng nghategorïau Manwerthu (20%); Llety, Bwyd a Diod (17%); ac Adeiladu (10%). Roedd canlyniadau 2007 yn cyd-fynd yn weddol â 2004 heblaw am dri eithriad amlwg. Yn 2007 roedd Gwasanaethau (10%) a Chludiant (9%) yn gryf, ac er mai Manwerthu, ar 20%, oedd y categori amlycaf o hyd, fe ostyngodd o 32% yn 2007.

### *Nodweddion Perchnogion y Busnesau*

Roedd dyddiadau dechrau'r busnesau a arolygwyd yn amrywio o 1640 i 2007 ond rhai cyfoes oedd y mwyafrif, gan ddechrau er 1950; 24% yn y 1990au; 11% er 2000; a 6% yn y pum mlynedd diwethaf hyd at 2007. I berchnogion busnes, y ffactor pwysicaf wrth ddechrau busnes oedd sicrhau mesur o annibyniaeth.

Drwy'r data bywgraffyddol a hanesyddol yn yr arolwg, llwyddwyd i adeiladu darlun o berchnogion y busnesau. Roedden nhw bedair gwaith yn debycach o fod yn wryw na benyw (79% yn erbyn 21%) ac roedd 71% rhwng 40 a 64 oed, gyda 10% o dan 40 a 17% dros 65. Roedd y canlyniadau oedran hyn yn debyg yn fras i arolwg 2004. Er hynny, roedd cyfran lai o berchnogion 2007 yn yr amrediad canol o 40 i 64; roedd mwy o berchnogion 2007 dros 65; ac roedd llai o dan 40, a oedd yn awgrymu tuedd tuag at boblogaeth o berchnogion busnes yng nghefn gwlad Cymru sy'n heneiddio.

O ran cymwysterau a hyfforddiant, yn 2007 roedd gan bron dwywaith yn fwy radd uwch neu gymhwyster ôl-raddedig nag yn 2004. Mae'n galonogol bod llai o'r ymatebwyr heb gymwysterau yn 2007.

Cyfran gymharol fach o berchnogion busnesau, sef 28%, oedd wedi cael hyfforddiant busnes ffurfiol. Yn ychwanegol, cyfran gymharol fach, sef 35%, oedd yn credu bod hyfforddiant busnes ffurfiol yn bwysig ac roedd lleiafrif sylweddol, 25%, yn credu nad oedd yn bwysig. Roedd yr agweddau negyddol hyn at arferion busnes ffurfiol yn tueddu i gael eu cario drosodd i fyd Gweithrediadau a Strategaethau Busnes.

## *Gweithrediad Busnes a Strategaeth*

Er bod 45% o fusnesau'n aelodau o gymdeithas broffesiynol neu gymdeithas fasnach (Ffederasiwn y Busnesau Bach oedd yr un â'r gynrychiolaeth fwyaf) dim ond 36% o'r rhain a gredai fod aelodaeth yn ddefnyddiol. Cafodd y duedd hon o ddiffyg parch, yn ôl pob golwg, i strwythur mewn busnes, a nodwyd uchod mewn perthynas â hyfforddiant busnes ffurfiol, ei ategu gan yr ymateb cymharol isel ar gyfer cynlluniau busnes a chynlluniau marchnata ffurfiol. Dim ond 31% o fusnesau oedd â chynllun busnes ysgrifenedig, a dim ond 18% oedd â chynllun marchnata ysgrifenedig.

O ran hysbysebu, y canlyniad amlycaf oedd y cynnydd yn y defnyddio ar y Rhyngrwyd, a gododd o 27% o fusnesau yn 2004 i 40% yn 2007. Er bod yna ostyngiad o naw pwynt o ran defnyddio papurau newydd lleol i 40% o fusnesau yn 2007, ac er bod y 'gair llafar' wedi gostwng o 72% i 59%, arhosodd papurau cenedlaethol a radio/teledu lleol yr un fath. Er hynny, wnaeth 12% o fusnesau ddim hysbysebu yn 2007, o'i gymharu â 6% yn 2004.

Mae hysbysebu yn bwysig o ran recriwtio gweithwyr. Roedd y dulliau a ddefnyddid, a'u poblogrwydd, yn 2007 yn debyg i 2004. Y gair llafar oedd y dull recriwtio a oedd yn cael ei ddefnyddio amlaf o hyd; yn wir, gwelwyd cynnydd ynddo o 40% yn 2004 i 43% yn 2007. Roedd yn syndod bod hysbysebu ar gyfer gweithwyr ar y Rhyngrwyd un pwynt canran yn is yn 2007, sef 7% o'i gymharu ag 8% yn 2004. Hefyd, ac yn debyg i'r hysbysebu cyffredinol a drafodwyd uchod, wnaeth 12% o fusnesau ddim hysbysebu yn 2007, o'i gymharu â 6% yn 2004.

Yr ail ddull recriwtio mwyaf poblogaidd yn 2007 oedd y Ganolfan Waith, sef 28%. Roedd hyn yn nodedig am mai dim ond cael ei gofnodi fel rhan o'r dulliau 'Eraill' a wnaeth y Ganolfan Waith yn 2004. Crynhoir argraffiadau perchnogion busnesau o ansawdd y dulliau hyn ac o ansawdd ymgeiswyr am gyflogaeth isod yn 4.2.

## *Gweithwyr a Busnesau yng nghefn gwlad Cymru*

O'r busnesau a arolygwyd, roedd gan 64% weithwyr cyflogedig. Roedd cyfanswm o 663 o fusnesau yn cyflogi 11,075 o weithwyr yn ôl cyfradd o 17 (16.7) o weithwyr i bob busnes. O'i chymryd dros y cyfan o boblogaeth yr arolwg, roedd y gyfradd yn gostwng i 11 (10.7) o weithwyr i bob busnes. Gan atgyfnerthu'r ymchwil flaenorol, roedd mwy o weithwyr gwryw amser llawn nag o weithwyr benyw (68% yn erbyn 32%) a mwy o weithwyr benyw rhan-amser na gwryw (29% yn erbyn 71%). Roedd graddfa a threfn y cyfrannau hyn yn debyg iawn ar gyfer gweithwyr tymhorol amser llawn a rhan-amser, ac roedd cyfrannau'r gweithwyr achlysurol wedi'u rhannu bron yn gyfartal o safbwynt rhyw.

Yn lleol y cafodd y mwyafrif o'r gweithwyr eu recriwtio: cafodd 64% eu recriwtio o fewn 10 milltir i'r gweithle; 24% rhwng 10 a 50 milltir; 7% o fyw na 50 milltir ond o fewn y DU; a 5% o'r tu allan i'r DU. I gymharu â hyn, dywedodd Arolwg Busnesau 2004 fod 12% o weithwyr wedi'u recriwtio o fwy nag 20km (12.5 milltir) a 3% o'r tu allan i'r DU.

Nodwedd ddiweddar ar reoleiddio recriwtio yn y DU yw'r Cynllun Cofrestru Gweithwyr [WRS], sy'n cofrestru gweithwyr o'r gwladwriaethau sydd wedi ymuno â'r UE. Isel oedd y niferoedd, gyda 17 o fusnesau yn cyflogi cyfanswm o 74 o weithwyr WRS. O ran y cyfrannau, roedd gan lai na 2% o'r busnesau a arolygwyd weithwyr WRS, ac roedd llai na 0.7% o'r gweithwyr wedi'u cofrestru gyda'r WRS.

### *Cwsmeriaid a Chyflenwyr*

Fel y gellid disgwyl mewn arolwg gwledig, roedd gan 70% o'r busnesau gwsmeriaid o fewn radiws o 20 milltir. Cyfran gymharol fach o gyfanswm y busnesau, sef 11%, oedd â 100% o'u cwsmeriaid o fewn y pellter hwn. Roedd gan fwy na hanner y busnesau a arolygwyd gwsmeriaid ymhellach i ffwrdd na 60 milltir, ac roedd gan un ym mhob pum busnes gwsmeriaid y tu allan i'r DU. Er bod gwerthiannau'n cael eu creu gan amryw o fathau o gwsmer, roedd un ym mhob pedwar o fusnesau'n dibynnu 100% ar y sector Preifat ac Aelwydydd. Roedd Cyflenwyr yn tueddu i fod ymhellach i ffwrdd na chwsmeriaid.

### *Busnesau a noddi gweithgareddau cymunedol lleol*

Roedd dros hanner y busnesau a arolygwyd (53%) yn noddi gweithgareddau cymunedol lleol. Rhoddwyd dau brif reswm dros beidio â noddi gweithgareddau lleol; ill dau yn ariannol. Yn gyntaf, dywedodd rhai busnesau na allen nhw fforddio noddi neu gyfrannu rhoddion. Yn ail, dadleuai busnesau eraill nad oedd cymhellion na manteision ariannol ynghlwm wrth noddi.

## 4.2 Agweddau ac Argraffiadau Perchnogion Busnesau yng Nghefn Gwlad Cymru

### *Pryderon – ansawdd ymgeiswyr am swyddi, asiantaethau recriwtio, a hyfforddiant sgiliau*

Roedd yn ymddangos bod rhywfaint o anfoddhad ar ansawdd y darpar weithwyr ac ansawdd yr asiantaethau recriwtio. Credai hanner yr ymatebwyr fod prinder ymgeiswyr a chytunodd cyfran fawr o'r ymatebwyr (63%) ei bod yn anodd recriwtio gweithwyr â sgiliau priodol. O ran perfformiad yr asiantaethau recriwtio ffurfiol (e.e. Canolfannau Gwaith) roedd tair gwaith yn fwy o'r ymatebwyr yn credu nad oedden nhw'n darparu ymgeiswyr da nag oedd yn credu eu bod yn darparu ymgeiswyr da. Ar y llaw arall, roedd cyfran fawr o'r busnesau'n credu bod rhwydweithiau anffurfiol yn ddefnyddiol at recriwtio ac yn eu defnyddio. Cafwyd canlyniadau tebyg yn Arolwg Busnesau 2004.

Doedd yr ymatebwyr ddim mor ofidus am ansawdd hyfforddiant sgiliau. Credai'r mwyafrif fod ansawdd yr hyfforddiant sgiliau yn dda. Er hynny, roedden nhw'n gofidio am gost a hygyrchedd hyfforddiant sgiliau.

### *Cefn Gwlad Cymru fel lleoliad ar gyfer busnes*

Enwodd yr ymatebwyr amryw o fanteision, anfanteision a chyfleoedd yn gysylltiedig â'u lleoliad yng nghefn gwlad Cymru. O ran manteision tybiedig rhedeg busnes mewn tref fach neu ardal wledig, er bod llawer yn sôn am y manteision busnes sy'n dod yn sgil lleoliad gwledig, cyfeiriai eraill at ansawdd bywyd well yng nghefn gwlad. Cyfeiriwyd at olygfeydd hardd cefn gwlad Cymru, ar y tir a'r arfordir, ac at y trefi marchnad bach dymunol. Dywedwyd bod cyflymder bywyd yn arafach; bod gwell cydbwysedd rhwng gwaith a bywyd; a bod llai o droseddau nag mewn ardaloedd mwy trefol. Cafwyd llawer o gyfeiriadau at sut roedd bywyd gwledig, gyda'i boblogaethau llai, o'i gymharu ag ardaloedd trefol, yn hybu ysbryd cymunedol da; yn hwyluso rhwydweithiau lleol o deulu, cyfeillion, gweithwyr, cwsmeriaid a chyflenwyr; ac adeiladu enw da cryf mewn busnes. O ran yr economi, roedd yna fanteision tybiedig mewn bod yn amlwg mewn marchnadoedd llai a marchnadoedd arbenigol, heb gystadleuaeth o du'r cwmnïau mawr; costau is; gorbenion is; eiddo fforddiadwy; ac amser a chostau cymudo is neu gwbl absennol. Roedd y manteision tybiedig hyn yn cael eu hestyn gan rai i gynnwys graddfa fyd-eang costau ac allyriannau carbon is.

Roedd anfanteision tybiedig gwneud busnes yng nghefn gwlad Cymru yn tueddu i ddeillio o'r un gwreiddiau â'r manteision. Bernid bod dwysedd poblogaeth isel wedi arwain at economi o gyflogau isel ac incwm isel i'w wario; nifer fach o gwsmeriaid, y ceid yr argraff eu bod yn heneiddio ac yn lleihau; fawr ddim o fasnach yn pasio heibio; dibyniaeth ar waith tymhorol; a marchnadoedd cyfyngedig. Yn ôl rhai, roedd gan rwydweithiau cymunedol gwledig, a welid gan eraill fel mantais, y potensial ar gyfer allgáu cymdeithasol ac allgáu mewn busnes. Ymhellach, roed dyna argraff bod prinder ymgeiswyr am swyddi; cronfa fach o lafurwyr medrus; a chyraeddiadau addysgol isel. Hefyd, roedd natur bellennig rhai lleoliadau gwledig yn arwain, yn anochel, at gostau tanwydd a chostau cymudo uchel; ffyrdd gwael; cludiant cyhoeddus annigonol; a mynediad gwael yn gyffredinol i gludiant a gwasanaethau eraill. Enghreifftiau penodol o wasanaethau oedd diffyg prif gyflenwad dwr; diffyg cysylltiad band eang; a chysylltiadau annibynadwy â'r Rhyngrwyd. Cafwyd awgrymiadau bod yna economi amgen, ar draul busnesau cyfreithlon.

Yn ychwanegol at gwynion cyffredin busnes yn gysylltiedig, er enghraifft, â chael gafael ar gyllid, dirwasgiad posibl, bygythiadau o du cwmnïau rhyngwladol a chystadleuwyr dros y môr a gormod o reoliadau, gwelai perchnogion busnesau ddiffyg llafur medrus; diffyg cymhelliant ac ymrwymiad ymhlith staff; prinder pobl ifanc yn dod drwodd i waith a gyrfaoedd; a cholli staff, a oedd yn aml yn ymadael â'r swydd a'r ardal leol ar ôl sicrhau hyfforddiant a chymwysterau ffurfiol ar draul y busnes. Roedd y Rhyngrwyd yn cael ei weld fel cyfle gan rai ymatebwyr ac fel bygythiad gan eraill. Roedd safbwyntiau yr un mor gyferbyniol ynghylch y boblogaeth wledig a oedd yn heneiddio; y twf yn y sector amgylcheddol; a hunaniaeth a diwylliant Cymru.

### *Argraffiadau ynghylch cymorth busnes*

Er bod y mwyafrif o'r busnesau a oedd wedi defnyddio gwasanaethau megis awdurdodau lleol, undebau a siambrau manach, a Llywodraeth y Cynulliad yn credu eu bod yn foddhaol, roedd mwy yn credu eu bod yn 'wael' nag yn 'dda'. Yr eithriad oedd cymdeithasau masnach, a gafodd fwy o glod nag o feirniadaeth. Mae Llywodraeth y Cynulliad, wrth gwrs, yn ffactor pwysig wrth hybu, cynnal a datblygu busnesau gwledig.

### *Busnesau Gwledig a Llywodraeth y Cynulliad*

O'r busnesau a arolygwyd, roedd 2% wedi manteisio'n uniongyrchol ar fentrau ariannol Llywodraeth y Cynulliad. Yn gyffredinol, doedd yr argraffiadau o Lywodraeth y Cynulliad ddim yn tueddu i fod yn ffafriol. Er enghraifft, wrth ddisgrifio'r materion canlynol - creu swyddi; ansawdd y swyddi a grëwyd; symbylu twf economaidd; adfywio cymunedau; a chymorth i fusnesau - roedd gan fwy o ymatebwyr syniadau negyddol am berfformiad Llywodraeth y Cynulliad na syniadau cadarnhaol. Dim ond ar gwestiwn gwella hyfforddiant sgiliau y cafwyd mwyafrif bach a ganmolodd hanes Llywodraeth y Cynulliad.

O ran y negeseuon allweddol i Lywodraeth y Cynulliad, er bod yna negeseuon o gefnogaeth, beirniadaeth oedd yn cael ei hawgrymu yn y mwyafrif o'r negeseuon. Cafwyd galwadau am leihau'r rheoliadau ar fusnes, yr isafswm cyflog, trethi a chostau. Roedd yna negeseuon hefyd a oedd yn poeni am or-bwyslais tybiedig ar Gaerdydd a'r De-ddwyrain ar draul busnesau mewn rhannau eraill o gefn gwlad Cymru, ar y cyd â galwad am swyddfeydd rhanbarthol i Lywodraeth y Cynulliad. Ar y llaw arall, dadleuwyd bod gormod yn cael ei wario ar

gynhyrchu deunyddiau dwyieithog a bod gormod o sylw'n cael ei roi i addysgu iaith a diwylliant Cymru i blant, ac y byddai gwario ar addysg busnes yn yr ysgol yn dwyn gwell canlyniadau. Beirniadwyd Llywodraeth y Cynulliad am ganolbwyntio ar fusnesau mawr, y credid eu bod yn llai ymrwymedig i ardaloedd gwledig yn hytrach na MBCh lleol. Problem dybiedig arall oedd diffyg ffocws Llywodraeth y Cynulliad ar dargedu cymorth grant, cymhellion busnes, rhaglenni busnes a hysbysebu.

Yn olaf, yn y crynodeb hwn o argraffiadau o Lywodraeth y Cynulliad, gellid grwpio nifer o negeseuon o dan thema 'peidio â chyfathrebu'. Dywedodd rhai busnesau fod rhaid i Lywodraeth y Cynulliad wneud yn well wrth gyfathrebu â busnes; honnodd eraill nad oedden nhw'n gwybod pwy neu beth oedd Llywodraeth y Cynulliad; a dim ond 10% o'r busnesau yn yr arolwg a oedd yn ymwybodol o *'Cymru: Economi sy'n Ffynnu'* [WAVE].

### *Busnesau Gwledig a'r Amgylchedd*

Yn y blynyddoedd diwethaf, mae'r berthynas rhwng busnes a'r amgylchedd wedi cael ei gweld fel un fwyfwy pwysig, o ran materion megis llygredd, defnyddio ynni, a chynhesu byd-eang. Roedd Arolwg Busnesau Gwledig 2007 yn cynnwys amryw o gwestiynau wedi'u bwriadu i edrych ar agweddau ac arferion busnesau yng nghefn gwlad Cymru ynghylch yr amgylchedd.

O ran ailgylchu, roedd 61% o'r busnesau yn yr arolwg yn ailgylchu cynhyrchion gwastraff, gyda rhai busnesau yn honni eu bod yn ailgylchu 100% o'u deunyddiau gwastraff. Gwelwyd problemau gyda'r gyfundrefn reoliadol ar gyfer ailgylchu gwastraff busnesau; yn benodol nad oedd busnesau yn cael defnyddio safleoedd ailgylchu awdurdodau lleol, a bod rhaid i fusnesau dalu'n ychwanegol am gael gwared ar eu gwastraff mewn ffordd gydnaws â'r amgylchedd. Roedd hyn yn cael ei weld fel cymhelliant i beidio ag ailgylchu. Yn wir, cyfeiriwyd at gostau ailgylchu fel ffactor lliniarol gan lawer o'r busnesau nad oedden nhw'n ailgylchu.

Roedd dros hanner 53% (546) y busnesau a arolygwyd yn cymryd rhan mewn menter amgylcheddol megis plannu coed, cydbwyso carbon neu bwer gwyrdd. Roedd y rhesymau a roddwyd dros beidio â chymryd rhan mewn mentrau amgylcheddol yn cynnwys costau, rheoliadau, yn enwedig cynllunio a diffyg gwybodaeth.

Er hynny, ac er gwaethaf lefelau cynyddol ymwybyddiaeth a phryder amgylcheddol, dros y pum mlynedd diwethaf roedd bron dwywaith yn fwy o fusnesau wedi cynyddu'r ynni roedden nhw'n ei ddefnyddio nag oedd wedi sicrhau gostyngiad. Roedd y mwyafrif o'r rhesymau a roddwyd dros gynnydd yn yr ynni a ddefnyddid yn ymwneud ag ehangu'r busnes. Galli hynny fod ar ffurf mwy o bersonél, mwy o gwsmeriaid, eiddo ehangach neu offer a chyfarpar ychwanegol. Priodolid gostyngiad o ran defnyddio ynni i amryw o ffactorau. Roedd y rhin yn cynnwys mwy o ymwybyddiaeth amgylcheddol; awydd i dorri costau; lleihau maint y busnes; arferion arbed ynni megis mwy o inswleiddio, bylbiau golau, thermostatau ac amseryddion ar reiddiaduron; a'r tywydd mwyn yn y gaeafau yn ddiweddar.

## 4.3 Busnesau gwledig a newid

Gellir dadlau bod y gallu i reoli newid yn ffactor allweddol mewn arferion busnes da. Gofynnwyd nifer o gwestiynau i'r busnesau a oedd yn ymwneud â newidiadau yn eu hamgylchiadau. Crynhoir y rhain o dan benawdau thematig.

### *Newid ariannol – Trosiant ac Elw*

Dros y pum mlynedd diwethaf, roedd 18% o'r busnesau a arolygwyd wedi gweld gostyngiad yn eu trosiant; roedd 58% wedi gweld cynnydd; ac roedd 24% wedi cadw'r un trosiant. O ran elw, dros y pum mlynedd diwethaf, roedd 27% o'r busnesau a arolygwyd wedi gweld gostyngiad yn eu helw; roedd 42% wedi gweld cynnydd; ac roedd 31% wedi cadw'r un lefel o elw. Mae dadansoddi'r data yn dangos bod costau gweithredu busnesau wedi tueddu i godi.

### *Ehangu a Chrebachu*

Atebodd cyfran uchel, sef 94%, o'r busnesau y cwestiwn ar newidiadau yn y busnes dros y pum mlynedd diwethaf; roedd mwy o fusnesau wedi ehangu nag a oedd wedi crebachu. O'r busnesau a ehangodd, roedd ychydig yn fwy na 50% wedi ehangu dros y pum mlynedd diwethaf; roedd ychydig yn fwy na 35% wedi aros yr un fath; ac roedd ychydig yn llai na 14% wedi crebachu.

